

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

Bil Addysg (Cymru)

Tachwedd 2013



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliadcymru.org

Gellir cael rhagor o gopiau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8242

Ffacs: 029 2089 8021

E-bost: PwyllgorPPI@cymru.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2013

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

Bil Addysg (Cymru)

Tachwedd 2013



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011. Ei gylch gwaith yw archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar faterion yn ymwneud â gwariant, gweinyddiaeth a pholisi sy'n cwmpasu: addysg, iechyd a lles plant a phobl ifanc Cymru, gan gynnwys eu gofal cymdeithasol.

Aelodau cyfredol y Pwyllgor



Ann Jones (Cadeirydd)

Llafur Cymru
Dyffryn Clwyd



Angela Burns

Ceidwadwyr Cymreig
Gorllewin Caerfyrddin
a De Sir Benfro



Keith Davies

Llafur Cymru
Llanelli



Suzy Davies

Ceidwadwyr Cymreig
Gorllewin De Cymru



Rebecca Evans

Llafur Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru



Bethan Jenkins

Plaid Cymru
Gorllewin De Cymru



Lynne Neagle

Llafur Cymru
Tor-faen



David Rees

Llafur Cymru
Aberafan



Aled Roberts

Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Gogledd Cymru



Simon Thomas

Plaid Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Cynnwys

1. Cyflwyniad.....	5
2. Casgliadau ac argymhellion.....	7
3. Egwyddorion cyffredinol a'r angen am ddeddfwriaeth	9
Cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol i wneud y Bil	9
Egwyddorion cyffredinol.....	9
4. Cyngor y Gweithlu Addysg - Cofrestru a rheoleiddio athrawon a'r gweithlu ehangach	12
Cofrestru	12
Teitl y corff newydd.....	16
Annibyniaeth y corff newydd	17
5. Diwygio'r system gofrestru.....	21
Datblygiad proffesiynol parhaus	21
Ffioedd cofrestru a sylfeini ariannol y Cyngor newydd	23
6. Diwygio trefn cofrestru a chymeradwyo ysgolion annibynnol mewn perthynas ag anghenion addysgol arbennig	27
7. Aseu anghenion addysgol a hyfforddiant ôl-16 ac Addysg Bellach arbenigol	32
8. Dyddiadau tymhorau ysgolion	41
Atodiad A: Llythyr gan y Gweinidog.....	45
Tystion.....	55
Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig.....	57

1. Cyflwyniad

1. Ar 1 Gorffennaf 2013, cyflwynodd Huw Lewis AC, y Gweinidog Addysg a Sgiliau ("y Gweinidog"), y Bil Addysg (Cymru)¹ ("y Bil") a gwnaeth ddatganiad² yn y Cyfarfod Llawn³ y diwrnod canlynol.

2. Yn ei gyfarfod ar 18 Mehefin 2013, cytunodd Pwyllgor Busnes y Cynulliad Cenedlaethol i gyfeirio'r Bil at y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ("y Pwyllgor") er mwyn iddo ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil (Cyfnod 1), yn unol â Rheol Sefydlog 26.9. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad erbyn 22 Tachwedd 2013.

Telerau'r gwaith craffu

3. Cytunodd y Pwyllgor ar y fframwaith a ganlyn ar gyfer craffu ar egwyddorion cyffredinol y Bil:

Ystyried:

- Egwyddorion cyffredinol y Bil Addysg (Cymru) a'r angen am ddeddfwriaeth yn y meysydd a ganlyn:

Cyngor y Gweithlu Addysg - Cofrestru a rheoleiddio athrawon a'r gweithlu ehangach;

Diwygio sut caiff ysgolion annibynnol eu cofrestru a'u cymeradwyo o ran anghenion addysgol arbennig;

Asesu anghenion addysgol a hyfforddiant ôl-16 ac Addysg Bellach arbenigol;

Dyddiadau tymhorau ysgol;

Penodi Prif Arolygydd EM ac Arolygwyr EM ar gyfer addysg a hyfforddiant yng Nghymru o dan adran 19 o Ddeddf Addysg 2005;

Unrhyw rwystrau posibl rhag rhoi'r darpariaethau hyn ar waith ac a yw'r Bil yn eu hystyried;

¹ Y Bil Addysg (Cymru), sydd ar gael yn: www.assemblywales.org/cy/bus-home/bus-business-fourth-assembly-laid-docs/pri-ld9382-e.pdf

² Cofnod y Trafodion, 2 Gorffennaf 2013, sydd ar gael yn: www.assemblywales.org/cy/bus-home/bus-chamber-fourth-assembly-rop.htm?act=dis&id=248525&ds=7/2013

(DS: oni nodir fel arall, mae cyfeiriadau dilynol at Gofnod y Trafodion yn yr adroddiad hwn yn cyfeirio at drafodion y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc)

³ Cyfarfod o holl Aelodau'r Cynulliad

Goblygiadau ariannol y Bil (fel y'u nodir yn Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol, yr 'Asesiad Effaith Rheoleiddiol', sy'n amcangyfrif y costau a'r buddion o roi'r Bil ar waith); a

Priodoldeb y pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth (fel y nodir yn Rhan 1, Adran 5 o'r Memorandwm Esboniadol, sy'n cynnwys tabl sy'n rhoi crynodeb o bwerau Gweinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth).

Dull gweithredu'r Pwyllgor

4. Cynhaliodd y Pwyllgor ymgynghoriad a gwahoddodd randdeiliaid allweddol i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i gyfrannu at waith y Pwyllgor. Mae rhestr o'r ymatebion i'r ymgynghoriad i'w gweld ar dudalen 55.
5. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan nifer o dystion. Mae amserlen y sesiynau tystiolaeth lafar i'w gweld ar dudalen 57. Mae trawsgrifiadau llawn o'r sesiynau hyn ar gael ar wefan y Cynulliad yn: <http://www.cynulliadcymru.org>.
6. Mae'r adroddiad a ganlyn yn nodi'r casgliadau a'r argymhellion y mae'r Pwyllgor wedi'u llunio yn seiliedig ar y dystiolaeth a ddaeth i law yn ystod ei waith.
7. Nid yw'r adroddiad hwn yn rhoi sylwadau ar bob adran o'r Bil. Os nad oes sylw yn cael ei roi ar adran benodol, gellir cymryd yn ganiataol bod y Pwyllgor yn fodlon ar y darpariaethau fel y'i drafftwyd yn y Bil.
8. Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu.

2. Casgliadau ac argymhellion

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r dystiolaeth a gafwyd ac yn cytuno ag egwyddorion y Bil a'r angen am ddeddfwriaeth, ac eithrio'r darpariaethau AAA. Mae'r Pwyllgor yn credu y byddai manteision o gynnwys yr holl ddiwygiadau AAA mewn un darn o ddeddfwriaeth, cyn belled ag y gellir gwneud hyn mewn modd amserol, ac mae'n argymhell bod y Gweinidog yn ystyried ai'r Bil hwn yw'r cyfrwng priodol ar gyfer y darpariaethau hyn.

(Tudalen 11)

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Gweinidog yn ystyried y diffiniad o 'gweithwyr ieuenctid'. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog ddarparu rheoliadau drafft er mwyn i'r Pwyllgor eu hystyried cyn iddynt gael eu cyflwyno.

(Tudalen 15)

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Bil yn cael ei ddiwygio i sicrhau bod athrawon a staff mewn ysgolion annibynnol yn cael eu cynnwys yn y gofynion cofrestru.

(Tudalen 16)

Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog adolygu'r dystiolaeth a gafodd y Pwyllgor ac ailystyried y gofyniad o dan adran 7 o'r Bil y dylai'r Cyngor gael cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn rhoi cyngor i unigolion perthnasol.

(Tudalen 20)

Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor hefyd yn argymhell y dylai'r Gweinidog adolygu a fydd y darpariaethau ar gyfer penodi aelodau a phrif swyddog y Cyngor a llunio'r Cod Ymddygiad ac Ymarfer cyntaf, yn ymarferol, yn golygu y bydd y corff newydd yr un mor annibynnol â'r Cyngor presennol.

(Tudalen 20)

Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog roi ystyriaeth bellach i'r darpariaethau datblygiad proffesiynol parhaus yn y Bil, yn enwedig yng nghyd-destun y dystiolaeth am yr anghydbwysedd rhwng y ddau nod a nodir yn y Bil. Hefyd, dylai'r Gweinidog rannu rheoliadau drafft perthnasol gyda'r Pwyllgor yn gynnar.

(Tudalen 23)

Argymhelliad 7. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Cyngor bennu ei ffioedd ei hun, ond y dylai Gweinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau, yn seiliedig ar egwyddorion tegwch a chydaddoldeb, ar bennu ffioedd cofrestru.

(Tudalen 26)

Argymhelliad 8. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn egluro lefel y cyllid a fydd ar gael ar gyfer rôl y Cyngor o ran datblygiad proffesiynol parhaus a hyrwyddo gyrfaoedd, a sut y bydd y rhain yn cael eu darparu yn ymarferol. (Tudalen 26)

Argymhelliad 9. Nid yw'r Pwyllgor yn erbyn y syniad o symleiddio'r broses ddeddfwriaethol ar gyfer derbyn dysgwyr ag AAA i ysgolion annibynnol a lleihau'r cymhlethdod, ond mae'n argymell y dylai'r Gweinidog ailystyried y cynnig i ddiddymu'r broses bresennol o gymeradwyo ar sail achosion unigol, gan gynnwys ystyried a fydd digon o fesurau diogelu ar waith. (Tudalen 31)

Argymhelliad 10. Mae'r Pwyllgor yn cytuno bod risg y bydd newid y weithdrefn ar gyfer asesu a chefnogi addysg ar gyfer dysgwyr ôl-16 yn arwain at wrthdaro rhwng buddiannau awdurdodau lleol. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod awdurdodau lleol yn wynebu cyfnod parhaus o gynt economaidd ac mae'n argymell bod y Gweinidog yn rhoi sicrwydd ac yn cyhoeddi canllawiau i sicrhau bod penderfyniadau cyllido yn cael eu gwneud ar sail angen addysgol yn unig, ac nid ar sail pwysau ar y gyllideb. (Tudalen 39)

Argymhelliad 11. Mae'r Pwyllgor yn cytuno bod y gwahaniaeth rhwng y ddyletswydd statudol a'r pŵer disgrisiwn yn creu sefyllfa lle y gallai dysgwyr sydd angen cefnogaeth gael eu colli, ac mae'n argymell y dylai'r Gweinidog adolygu'r adran hon. (Tudalen 40)

Argymhelliad 12. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid ailystyried yr amserlen a nodir yn y Bil o ran faint o amser y mae'n rhaid i ddysgwr aros cyn cyflwyno apêl yn erbyn methiant i gwblhau asesiad, yn ogystal â'r terfyn amser ar gyfer gwneud penderfyniadau. (Tudalen 40)

Argymhelliad 13. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Gweinidog adolygu'r gwahaniaeth rhwng y ddyletswydd statudol a'r pŵer disgrisiwn yn Adran 44 a'i ddibyniaeth ar a oes gan ddysgwr ddatganiad AAA. Mae'r Pwyllgor yn credu'n gryf bod yr adran hon yn caniatáu ar gyfer canlyniadau anghyfartal i ddysgwyr oherwydd yr amrywiad rhwng awdurdodau lleol a'i fod yn peri risg ar gyfer dysgwyr sydd angen cymorth. (Tudalen 40)

3. Egwyddorion cyffredinol a'r angen am ddeddfwriaeth

Cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol i wneud y Bil

9. Mae'r Memorandwm Esboniadol⁴ yn nodi:

"Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gymhwysedd deddfwriaethol i wneud darpariaeth mewn perthynas ag addysg yng Nghymru drwy rinwedd adran 108, a Rhan 1 (Pwnc 5: Addysg a hyfforddiant) o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006."

10. Cyhoeddodd y Llywydd ddatganiad ar 1 Gorffennaf 2013 a oedd yn nodi y byddai'r Bil, yn ei barn hi, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.⁵

Egwyddorion cyffredinol

11. Mae'r Bil yn ceisio:⁶

- Gwella'r modd y caiff y gweithlu ei gynllunio, ei hyfforddi a'i ddatblygu. Cyflwyno system gofrestru newydd, fwy cadarn, a fydd yn sicrhau mwy o gysondeb ac yn cydnabod cyfraniad y gweithlu addysg cyfan i addysg pob dysgwr yng Nghymru.
- Sicrhau mwy o gysondeb drwy newid y ffordd y mae dyddiadau tymhorau ysgolion yn cael eu pennu er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cysoni ar draws pob ysgol a gynhelir yng Nghymru.
- Cefnogi darpariaeth i ddysgwyr ag anghenion addysgol arbennig (AAA) drwy ddiwygio'r ffordd y mae ysgolion annibynnol yn cael eu cofrestru a'u cymeradwyo i ddarparu addysg i ddysgwyr ag AAA. Bydd hefyd yn darparu ar gyfer pontio gwell i ddysgwyr ag AAA o'r ysgol i addysg bellach drwy osod y cyfrifoldeb am asesu anghenion dysgwyr ag anawsterau a/neu anabledau dysgu, ac am sicrhau eu bod yn derbyn addysg ôl-16 arbenigol, ar yr awdurdod lleol.
- Newid y ffordd y mae dyddiadau tymhorau ysgolion yn cael eu pennu er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cysoni ar draws pob ysgol a gynhelir yng Nghymru.

⁴ Memorandwm Esboniadol, paragraff 3

⁵ <http://www.cynulliadcymru.org/pri-ld9382-pos-e.pdf>

⁶ Y Memorandwm Esboniadol, paragraffau 6-8

- Symleiddio'r broses o benodi Prif Arolygydd EM ac Arolygwyr EM ar gyfer addysg a hyfforddiant yng Nghymru (Estyn).

12. Er bod y pwyllgor, yn gyffredinol, yn fodlon cefnogi'r ddwy egwyddor gyntaf, mae'r materion sy'n ymwneud â chynnwys darpariaethau mewn perthynas ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) yn peri mwy o bryder i'r Pwyllgor, ac mae'r dystiolaeth a gafwyd yn cynnwys amheuon ynghylch pa mor gydlynol fyddai gwahanu'r cynigion AAA o ddiwygiadau ehangach yn y maes hwn, a goblygiadau hynny.

Tystiolaeth y Gweinidog

13. Pan gafodd ei holi ynghylch cynnwys darpariaethau AAA yn y Bil hwn, dywedodd y Gweinidog:

“It is timely... This is an opportunity to improve and simplify the current system, while bearing in mind, of course, that there is a wider agenda that needs to be addressed around SEN. There is no reason in my view to hold back on those provisions... In other words, why would we not? If we can deliver discrete and concrete improvements through this Bill, then this is a legislative vehicle that we should use.”⁷

14. Pan gafodd ei holi ymhellach, dywedodd y Gweinidog:

“The alternative, really, would be to wait for 18 months or two years for, perhaps, a more elegant legislative vehicle to pull up and then we could jump aboard that one. However, there is the opportunity within the legislative timetable to deliver concrete improvement through these means. It is certainly not dependent on the outcome of the wider SEN agenda.”⁸

Ein barn ni

15. Ystyriodd y Pwyllgor yr holl dystiolaeth ac mae'n hapus i gefnogi egwyddorion y Bil mewn perthynas â'r gweithlu addysg a chysoni dyddiadau tymor ysgol.

16. Fodd bynnag, nid yw'r pwyllgor wedi'i argyhoeddi y dylid cynnwys darpariaethau AAA yn y Bil hwn. Nid yw'r Pwyllgor yn credu bod y Bil hwn yn ddarn o ddeddfwriaeth briodol i ddatblygu'r darpariaethau pwysig hyn.

⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 84, 24 Hydref 2013

⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 87, 24 Hydref 2013

17. Gan fod y Gweinidog wedi nodi ei fwriad i gyflwyno Bil penodol yn ymwneud â'r agenda AAA ehangach, mae'r Pwyllgor yn credu y dylid ystyried o ddifrif y posibilrwydd o ddileu darpariaethau AAA o'r Bil hwn a'u cynnwys mewn Bil ar wahân, a fyddai'n darparu dull mwy holistig o ymdrin â'r mater.

18. Mae'r Pwyllgor yn credu y byddai dileu'r darpariaethau AAA yn y Bil hwn yn ymdrin â phryderon ynghylch cyflwyno'r newidiadau hyn pan fo amrywiaeth mewn polisi ac arfer o ran AAA, o ystyried ei bod yn debygol y bydd y cyd-destun yn newid yn sylweddol yn ystod y blynyddoedd nesaf.

19. Ar ben hynny, mae'r Pwyllgor yn credu bod problemau gyda'r manylion cyllido ar gyfer y darpariaethau AAA yn y Bil ac y byddai dileu'r darpariaethau AAA yn rhoi amser i'r Llywodraeth ystyried y materion cyllido ymhellach.

Mae'r Pwyllgor yn nodi'r dystiolaeth a gafwyd ac yn cytuno ag egwyddorion y Bil a'r angen am ddeddfwriaeth, ac eithrio'r darpariaethau AAA. Mae'r Pwyllgor yn credu y byddai manteision o gynnwys yr holl ddiwygiadau AAA mewn un darn o ddeddfwriaeth, cyn belled ag y gellir gwneud hyn mewn modd amserol, ac mae'n argymhell bod y Gweinidog yn ystyried ai'r Bil hwn yw'r cyfrwng priodol ar gyfer y darpariaethau hyn.

4. Cyngor y Gweithlu Addysg - Cofrestru a rheoleiddio athrawon a'r gweithlu ehangach

Cofrestru

20. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi:

“Mae cofrestru gyda chorff proffesiynol sy'n gosod ac yn cynnal safonau proffesiynol ... yn nodwedd amlwg mewn amryw o broffesiynau ... Manteision hyn yw ei fod yn cynnig atebolrwydd a thryloywder ac yn rhoi sicrwydd o ran safonau.”⁹

21. Ar hyn o bryd, dim ond athrawon cymwysedig sy'n gweithio mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru sy'n gorfod cofrestru gyda chorff proffesiynol (sef Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ar hyn o bryd) er mwyn ymarfer. Mae'r memorandwm esboniadol yn nodi y bydd y rhwymedigaeth i gofrestru yn cael ei hymestyn, i ddechrau, i gynnwys:

- Gweithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion; ac
- Athrawon a staff cymorth dysgu addysg bellach.

22. Y bwriad yw ymestyn y rhwymedigaeth i gofrestru yn y dyfodol i gynnwys:

- Tiwtoriaid a staff cymorth dysgu seiliedig ar waith; a
- Gweithwyr ieuenctid.

23. Yn y Memorandwm Esboniadol, mae Llywodraeth Cymru yn nodi sut y mae'r gweithlu addysg yng Nghymru wedi newid yn sylweddol yn ystod y deng mlynedd diwethaf. Mae'n nodi mai'r prif ffactorau yw cydweithio rhwng ysgolion a darparwyr ôl-16 i ddarparu dewisiadau ehangach i ddysgwyr, yn ogystal â diwygiadau fel y Cyfnod Sylfaen a Llwybrau Dysgu 14-19, sy'n ei gwneud yn ofynnol bod ymarferwyr, gan gynnwys staff cymorth dysgu, yn gweithio gyda'i gilydd.¹⁰

Tystiolaeth gan dystion

24. Roedd tystiolaeth a gafwyd gan y Pwyllgor yn dangos consensws bod ymestyn y gofyniad i gofrestru gweithwyr cymorth a staff addysg bellach yn briodol o ystyried natur newidiol y gweithlu addysg.

⁹ Memorandwm Esboniadol, paragraff 17

¹⁰ Memorandwm Esboniadol, paragraff 12

25. Fodd bynnag, roedd barn gymysg ynghylch a ddylid cynnwys gweithwyr ieuenctid yn y dyfodol.

26. Roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn credu bod cynnwys gweithwyr ieuenctid yn gwbl briodol, gan fod gwaith ieuenctid yn symud yn fwyfwy tuag at gefnogi addysg a chefnogi gwella ysgolion.¹¹ Roedd Estyn hefyd yn cefnogi hyn oherwydd bod gan waith ieuenctid rôl gefnogi bwysig iawn o ran addysg a hyfforddiant yn ei gyd-destun ehangaf.¹²

27. Roedd gan Undeb Cenedlaethol Athrawn Cymru bryderon ynghylch cynnwys gweithwyr ieuenctid oherwydd yr amrywiaeth yn eu rôl ar hyn o bryd ac oherwydd 'nid ydynt...ar hyn o bryd wir yn rhan o'r gweithlu addysg'.¹³ Roedd cynnwys gweithwyr ieuenctid hefyd yn fater a amlygwyd yn y grwpiau ffocws a gynhaliwyd gan y tîm Allgymorth gyda Gwasanaeth Ieuenctid Cyngor Wrecsam. Dywedwyd bod amrywiaeth enfawr ar hyn o bryd o ran yr hyn a ystyrir yn 'weithiwr ieuenctid'.¹⁴

28. Dywedodd UNSAIN y byddai anawsterau yn sgîl cynnwys gweithwyr ieuenctid mewn system gofrestru sy'n canolbwyntio ar addysg yn unig ac y byddai ffurfioli a chyfuno gweithwyr ieuenctid â'r system addysg yn ôl pob tebyg yn dileu rhywfaint o'r gwaith gwell y maent yn ei wneud yn y gymuned.¹⁵

29. Roedd y dystiolaeth a ddaeth i law yn nodi'r her bwysig o ran diffinio mewn modd digonol y categorïau a fydd yn cofrestru. Dywedodd Estyn fod angen gwneud llawer o waith i bennu'r categorïau, gan nodi mai rhai o'r prif faterion oedd cymharu cymwysterau a'r modd y caiff staff rhan-amser sy'n ymweld â sefydliadau addysg bellach eu trin.¹⁶

30. Roedd y Gymdeithas Athrawon a Darlithwyr (ATL) yn credu bod angen diffiniadau clir o bwy fydd yn cael ei gofrestru¹⁷ a rhybuddiodd y Gymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegaur (ACSL) y byddai cael consensws o ran diffiniadau a theitlau swyddi yn anodd mewn rhai rhannau o'r sector.

¹¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 229, 26 Medi 2013

¹² Cofnod y Trafodion, paragraff 232, 2 Hydref 2013

¹³ Cofnod y Trafodion, paragraff 97, 26 Medi 2013

¹⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, EB 30

¹⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 18, 26 Medi 2013

¹⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 226, 2 Hydref 2013

¹⁷ Cofnod y Trafodion, Paragraff 9, 2 Hydref 2013

Dywedwyd, er enghraifft, bod nifer fawr o deitlau swyddi yn gysylltiedig â chymorth dysgu.¹⁸

31. Fodd bynnag, roedd y Cyngor Addysgu Cyffredinol yn argymhell cynnwys diffiniadau eang a hyblyg ar wyneb y Bil. Dywedodd y Cyngor Addysgu y byddai'r ddeddfwriaeth yn fwyaf effeithiol pe bai'n 'galluogi', yn hytrach na bod yn rhy benodol. Argymhellodd y dylai'r Cyngor newydd fod â'r hyblygrwydd i ddiffinio'r categorïau a'r rolau penodol hyn yn y dyfodol.¹⁹

32. Roedd y dystiolaeth yn cefnogi'n gryf y posibilrwydd o gofrestru staff mewn ysgolion annibynnol. Dywedodd Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT) nad oedd hepgor ysgolion annibynnol yn gwneud synnwyr²⁰, roedd undeb yr NASUWT yn credu y dylai'r sector preifat, yn ogystal â'r sector cyhoeddus, gael ei reoleiddio,²¹ ac roedd y Cyngor Addysgu Cyffredinol yn credu bod hyn yn fwllch difrifol y gellir ei unioni drwy'r Bil hwn.²²

33. Dywedodd yr ATL yr hyn a ganlyn ynghylch yr angen am y ddarpariaeth hon:

"so that someone who has perhaps been disciplined and dismissed and frankly struck off from the register and is no longer able to work in the maintained sector should then not be able to get a job in an independent school".²³

Tystiolaeth y Gweinidog

34. Cafodd y Gweinidog ei holi ynghylch cynnwys rhagor o grwpiau i'w cofrestru, yn enwedig gweithwyr ieuenctid. Cadarnhaodd nad yw'r Bil yn cynnwys gweithwyr ieuenctid ar hyn o bryd, ond dywedodd ei fod yn bwriadu ei gwneud yn ofynnol i weithwyr ieuenctig gofrestru dros amser. Dywedodd hefyd:

"the sector varies quite considerably in terms of how you might define a youth worker, and that their contractual arrangements can be very variable as well. So, for all those reasons of complexity, it was decided to make secondary legislation to require youth workers to

¹⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 15, 2 Hydref 2013

¹⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 139, 2 Hydref 2013

²⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 22, 2 Hydref 2013

²¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 103, 26 Medi 2013

²² Cofnod y Trafodion, paragraff 142, 2 Hydref 2013

²³ Cofnod y Trafodion, paragraff 21, 2 Hydref 2013

register. That will require further full consultation to inform the policy."²⁴

35. Nid yw staff mewn ysgolion annibynnol yn cael eu cynnwys yn y broses gofrestru, a chodwyd y mater hwn yn y Cyfarfod Llawn pan gafodd y Bil ei gyflwyno'n ffurfiol ar 2 Gorffennaf 2013. Gan gydnabod bod nifer o Aelodau wedi gwneud y pwynt hwn mewn ymateb i'w ddatganiad llafar, dywedodd y Gweinidog ei fod bob amser yn barod i wrando a bod hyn yn rhywbeth iddo gnoi cil arno.²⁵

36. Fodd bynnag, pan gafodd ei holi ar y mater gan Aelodau'r Pwyllgor, dywedodd y Gweinidog:

"I am satisfied that, by the very nature of independent schools as private autonomous businesses, in effect, they are in a very different situation. I am content that the safeguards that we already have around the quality of those establishments and around safeguarding will remain as they have been, and so there is nothing to be lost by this legislation in terms of the requirements that are put upon independent schools."²⁶

Ein barn ni

37. Mae'r Pwyllgor yn fodlon bod y Bil yn ehangu'r broses gofrestru i gynnwys sectorau eraill o'r gweithlu addysg, ac mae hefyd yn fodlon ynghylch bwriad y Gweinidog i gynnwys gweithwyr ieuenctid yn ddiweddarach.

38. Fodd bynnag, derbyniodd yr Aelodau rai o'r pryderon a godwyd ynghylch diffinio'r staff fydd yn cael eu cynnwys. Yn arbennig, roedd yr Aelodau'n credu y dylai'r diffiniad o 'gweithiwr ieuenctid' gael ei ystyried yn llawn gan y Gweinidog.

39. Mae'r Pwyllgor wedi'i ddarbwylllo gan y dystiolaeth o blaid cynnwys staff mewn ysgolion annibynnol yn y broses gofrestru. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod eithrio staff mewn ysgolion annibynnol o'r darn hwn o ddeddfwriaeth yn creu bwlch diogelwch difrifol.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Gweinidog yn ystyried y diffiniad o 'gweithwyr ieuenctid'. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog

²⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 8, 24 Hydref 2013

²⁵ Y Cyfarfod Llawn, 2 Gorffennaf 2013

²⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 11, 24 Hydref 2013

ddarparu rheoliadau drafft er mwyn i'r Pwyllgor eu hystyried cyn iddynt gael eu cyflwyno.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Bil yn cael ei ddiwygio i sicrhau bod athrawon a staff mewn ysgolion annibynnol yn cael eu cynnwys yn y gofynion cofrestru.

Teitl y corff newydd

40. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth i newid enw'r corff cofrestru presennol o 'Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru' i 'Cyngor y Gweithlu Addysg'.

Tystiolaeth gan dystion

41. Roedd enw'r corff newydd yn broblem i nifer o'r rhai a ymatebodd i ymgynghoriad y Pwyllgor. Yn arbennig, roedd y Cyngor Addysgu Cyffredinol yn gwneud yr achos dros gynnwys y geiriau 'addysgu' neu 'proffesiwn'. Nid oedd hyn yn fater o semanteg yn unig i'r Cyngor Addysgu Cyffredinol. Nid oedd yn credu bod yr enw arfaethedig, sef 'Cyngor y Gweithlu Addysg', yn cyfleu proffesiynoldeb athrawon neu'r unigolion cofrestredig newydd. Pwysleisiodd y Cyngor Addysgu bwysigrwydd y gair 'addysgu' yn hytrach nag 'athrawon', gan fod hyn yn adlewyrchu'r pwyslais ar weithgarwch proffesiynol y personau a reoleiddir.²⁷

42. Yn yr un modd, roedd yr Undeb Prifysgolion a Cholegau (UCU) yn credu y dylid adlewyrchu 'proffesiynoldeb' yn y teitl. Roedd grŵp Aspect yn undeb Prospect yn teimlo nad oedd y teitl arfaethedig yn uchelgeisiol iawn.

43. Dywedodd Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru ei bod yn 'hollol hapus gyda'r enw'.²⁸ Dywedodd Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT) y byddai'n well ganddynt weld y gair 'addysgu' yn cael ei gynnwys, ond nid oedd ganddynt bryderon sylweddol ynghylch yr enw.²⁹

Tystiolaeth y Gweinidog

44. Pan holwyd y Gweinidog ynghylch newid enw'r corff, nid oedd wedi'i argyhoeddi gan y dystiolaeth. Dywedodd:

"I have heard a number of opinions raised in terms of the name, but I have not heard anything that persuades me that the title 'Education Workforce Council' is inadequate in any way. I think that it accurately

²⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 145, 2 Hydref 2013

²⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 106, 26 Medi 2013

²⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 107, 26 Medi 2013

reflects what we are about here, and, essentially, that is the wording on the tin—it does what it says on the tin.”³⁰

Ein barn ni

Nid oes gan y Pwyllgor farn cryf ynghylch teitl y corff, ond mae'r Pwyllgor yn credu y dylai teitl y corff cofrestru adlewyrchu cynnwys a phwrpas y corff.

Annibyniaeth y corff newydd

45. Mae'r Bil yn rhoi nifer o bwerau i Weinidogion Cymru a rhaid i'r Cyngor gydymffurfio gydag unrhyw gyfarwyddyd Gweinidogol cyffredinol neu benodol (ac eithrio mewn achosion cofrestru a disgyblu unigol) a darpariaethau a wneir mewn Rheoliadau. Gall Gweinidogion Cymru:

- Roi caniatâd (neu wrthod caniatâd) i'r Cyngor ddarparu cyngor yn ôl y gofyn;
- datblygu cod ymddygiad;
- penodi aelodau o'r Cyngor;
- gwneud darpariaeth ynghylch y ffi gofrestru (a phwy sydd i bennu'r swm);
- cymeradwyo'r cynllun cyflog i weithwyr y Cyngor a phenodi Prif Swyddog y Cyngor.

Tystiolaeth gan dystion

46. Cyflwynodd y Cyngor Addysgu Cyffredinol feirniadaeth gynhwysfawr ar y trefniadau fel y'u nodir yn y Bil ac roedd yn dadlau y bydd y Bil yn 'gwanhau proffesiynoldeb' a 'llyffetheirio annibyniaeth' y Cyngor. Gwnaeth y Cyngor Addysgu Cyffredinol grynhoi mewn tabl bwerau presennol y Cyngor Addysgu Cyffredinol a'r rhai a gynigir ar gyfer y corff newydd. Mae'r Cyngor yn tynnu sylw at yr hyn a ganlyn o ran annibyniaeth a rheolaeth y Gweinidog:

- Rhaid i'r Cyngor newydd gydymffurfio â chyfarwyddiadau cyffredinol neu benodol a roddir iddo gan Weinidogion Cymru;
- Mae angen i'r Cyngor gael caniatâd gan y Gweinidog cyn y gall roi cyngor ar faterion addysgu penodol. Dywed y Cyngor bod hyn yn golygu y byddai'n 'cael ei rwystro rhag defnyddio ei ddirnadaeth a'i bersbectif yn annibynnol';

³⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 15, 24 Hydref 2013

- Dim ond â chaniatâd y Gweinidog y gellir cyhoeddi'r cyngor hwn.
- Bydd Llywodraeth Cymru yn llunio'r cod ymddygiad ac ymarfer proffesiynol cyntaf;
- Bydd Gweinidogion Cymru'n penodi aelodau'r Cyngor newydd;
- Caiff Gweinidogion Cymru bennu pwy fydd yn penodi Prif Swyddog y Cyngor ac yn penderfynu ar eu telerau;
- Caiff Gweinidogion Cymru bennu pwy fydd yn penodi Prif Swyddog y Cyngor ac yn penderfynu ar eu telerau ac amodau;
- Rhaid i gynllun cyflogau'r Cyngor ar gyfer ei weithwyr gael ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru.³¹

47. Dywedodd y Cyngor Addysgu bod 'mwy o reolaethau gan y llywodraeth' yn 'nodweddiion Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru' yn hytrach na chorff hunanreoleiddiol, proffesiynol ac annibynnol. Mae'n nodi mai un o'r rhwystrau posibl i weithredu'r newidiadau yw na fydd y Cyngor newydd yn denu ymroddiad proffesiynol digonol.³²

48. Roedd yr undebau addysg yn rhanu'r safbwyntiau hyn. Dywedodd y ATL bod y Cyngor arfaethedig yn fawr mwy nag arf llywodraethol, gan ei fod yn gwneud pethau i athrawon a staff cymorth, yn hytrach nag ar eu cyfer neu ganddynt.³³

49. Dywedodd yr ASCL nad oedd pwerau penodi Gweinidogion Cymru yn cyd-fynd â'r syniad o gorff proffesiynol. Bu hyn yn thema gyson yn y dystiolaeth.³⁴

50. Roedd UCAC yn credu y dylid ymddiried yn y Cyngor o ran ei ddisgresiwn ynghylch pryd i roi cyngor, ac i bwy. Roedd yn dadlau bod y Bil yn awgrymu naill ai diffyg ymddiriedaeth neu gais amhriodol i reoli corff annibynnol.³⁵

51. Dywedodd yr NAHT bod penodi aelodau i'r Cyngor gan Weinidogion yn golygu y byddai risg gwirioneddol y gallai gael ei ddiystyried gan y proffesiwn fel cwango,³⁶ a rhybuddiodd na fyddai ei aelodau eisiau ymuno â'r

³¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, EB 17

³² Tystiolaeth ysgrifenedig, EB 17

³³ Tystiolaeth ysgrifenedig, EB 12

³⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, EB 11

³⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, EB 05

³⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 29, 2 Hydref 2013

Cyngor newydd pe bai'n edrych fel cwango.³⁷ Mewn tystiolaeth lafar, cyfeiriodd yr UCU at effaith bosibl diffyg hygrededd canfyddedig y Cyngor:

“The concerns we have are based on our experience with UCU and the Institute for Learning [IFL] in England. Members were compelled to join and pay a few or they would not be licensed to practise, but they felt that the IFL did not represent them as professionals. In the light of the debate around that, it collapsed and people decided that they were not going to pay to join, and therefore, that requirement has been withdrawn. We would not like to see a repeat of that here in Wales, but what we would like to see is a professional body set up for professionals by professionals to represent their professional interests and maintain the professionalism in education in Wales.”³⁸

52. Dywedodd Cyngor Addysgu Cyffredinol yr Alban fod gwahaniaethau yn lefel yr annibyniaeth a gynigir i'r corff yng Nghymru o'i gymharu â'r corff yn yr Alban. Dywedodd y bydd nifer o'r penderfyniadau proffesiynol sy'n ganolog i weithredu'r corff newydd yn cael eu gwneud gan Weinidogion, yn hytrach na'r Cyngor ei hun.³⁹

Tystiolaeth y Gweinidog

53. Pan holwyd y Gweinidog yn y Cyfarfod Llawn ar 2 Gorffennaf ynghylch y gwanhau canfyddedig i annibyniaeth y Cyngor, dywedodd:

"Constitutionally, the new education workforce council would have the same status as the current GTCW, so it would be independent of Government. There is no change. In essence, the Bill evolves the GTCW into another body, but does not interfere with its constitutional status and its relationship with the Welsh Government. Therefore, there is independence built in there.”⁴⁰

54. Pan gafodd ei holi ymhellach ar y mater hwn yng nghyfarfod y Pwyllgor, dywedodd y Gweinidog:

‘The legal basis of the workforce council would essentially be the same as that for the GTCW. Legally speaking, this new body would

³⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 30, 2 Hydref 2013

³⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 25, 2 Hydref 2013

³⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, EB 25

⁴⁰ Y Cyfarfod Llawn, 2 Gorffennaf 2013

have the same legal footprint as the current GTCW and, therefore, the same level of independence.”⁴¹

55. Yn ei dystiolaeth, dywedodd y Gweinidog:

“Its [*y corff newydd*] legal status, if you like, will not change as a body, and it would be independent of Government in the same way that the GTCW is independent... Essentially, however, the arm’s-length relationship is completely analogous for the workforce council, as it would have been for the GTCW.”⁴²

Ein barn ni

56. O ystyried cryfder y dystiolaeth ar y mater hwn, nid yw'r Pwyllgor wedi'i argyhoeddi y bydd y corff newydd yn annibynnol ar y Llywodraeth.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog adolygu'r dystiolaeth a gafodd y Pwyllgor ac ailystyried y gofyniad o dan adran 7 o'r Bil y dylai'r Cyngor gael cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn rhoi cyngor i unigolion perthnasol.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn argymhell y dylai'r Gweinidog adolygu a fydd y darpariaethau ar gyfer penodi aelodau a phrif swyddog y Cyngor a llunio'r Cod Ymddygiad ac Ymarfer cyntaf, yn ymarferol, yn golygu y bydd y corff newydd yr un mor annibynnol â'r Cyngor presennol.

⁴¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 43, 17 Gorffennaf 2013

⁴² Cofnod y Trafodion, paragraff 48, 6 Tachwedd 2013

5. Diwygio'r system gofrestru

Datblygiad proffesiynol parhaus

57. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi mai un o brif swyddogaethau'r Cyngor fydd:

"Hyrwyddo gyrfaoedd y gweithlu addysg..."⁴³

58. Mae'r Bil yn rhoi rôl gynghori i'r Cyngor ym meysydd 'hyfforddi, datblygu gyrfa a rheoli perfformiad personau cofrestredig' (Adran 7(2(f)), sy'n amodol ar gael caniatâd Gweinidogion i roi cyngor o'r fath.

59. Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn dweud y gall y Cyngor (gyda chydysniad Gweinidogion Cymru) "gynghori ar faterion ymwneud ag aelodau'r gweithlu addysg ehangach; gan gynnwys ynghylch materion megis...datblygiad proffesiynol parhaus".⁴⁴

Tystiolaeth gan dystion

60. Mae'r Pwyllgor wedi cael cryn dipyn o dystiolaeth sy'n dadlau bod diffyg cydbwysedd rhwng y darpariaethau yn y Bil ar gyfer cyflawnidau nod datganedig y Cyngor, sef:

- Cyfrannu at wella safonau addysgu ac ansawdd dysgu yng Nghymru
- Cynnal a gwella safonau ymddygiad proffesiynol ymysg athrawon a phersonau sy'n cefnogi addysgu a dysgu yng Nghymru

61. Dywedodd UCAC wrth y Pwyllgor:

"Nid oes braidd dim cyfeiriad at godi safonau addysgol neu ddatblygiad proffesiynol parhaus. Rwy'n credu bod yr anghydbwysedd yn y Bil yn dangos y bydd anghydbwysedd yn y ffordd y bydd y cyngor ei hun yn gweithredu wedyn".⁴⁵

62. Roedd yr NUT yn cytuno â'r farn hon, gan ddadlau bod angen mwy o eglurder o ran sut y bydd y ddau nod hyn yn cael eu bodloni.⁴⁶

63. Fodd bynnag, nid oedd yr NASUWT yn credu y dylai'r Cyngor fod yn gyfrifol am ddatblygiad proffesiynol parhaus, ac mai rheoleiddio ddylai fod

⁴³ Memorandwm Esboniadol, paragraff 28.

⁴⁴ Memorandwm Esboniadol, paragraff 30.

⁴⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 129, 26 Medi, 2013

⁴⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 135, 26 Medi 2013

unig swyddogaeth corff cofrestru.⁴⁷ Mae'r NASUWT yn pwysleisio bod datblygiad proffesiynol parhaus a safonau proffesiynol yn ymwneud ag amodau gwasanaeth athrawon, ac y dylent fod y tu allan i gylch gwaith corff rheoleiddio. Dywedodd mai rôl corff rheoleiddio ddylai fod, lle bo angen, gwneud penderfyniadau mewn perthynas â safonau, ac nid gosod y safonau.⁴⁸ Roedd yn dadlau mai Llywodraeth Cymru ddylai fod yn gyfrifol am ddarparu datblygiad proffesiynol parhaus, ac mai'r Llywodraeth ddylai ei ariannu. Roedd yn dadlau y byddai'r ffiniau yn cael eu pylu pe bai'r ddarpariaeth hon yn gorffwys gyda'r Cyngor.⁴⁹

64. Roedd Estyn hefyd yn credu mai Llywodraeth Cymru ddylai fod yn gyfrifol am ddatblygiad proffesiynol parhaus. Dywedodd:

"dylai'r swyddogaeth honno o gefnogi datblygiad proffesiynol fod yn agos iawn at y ddarpariaeth, sef y pwynt lle mae'r ddarpariaeth addysg yn cael ei gwneud [ysgolion a'r consortia rhanbarthol]..."⁵⁰

Rwy'n credu bod angen i'r Llywodraeth berchenogi ar y safonau, achos hi sy'n perchenogi'r polisiau sy'n seiliedig ar y safonau ac yn gysylltiedig â hwy. Felly, nid wyf yn teimlo'n gryf y dylid creu cymhlethdod pellach wrth greu swyddogaethau newydd i gorff ar wahân."⁵¹

65. Er bod 'hybu gyrfaedd' yn cael ei nodi yn adran 8 o'r Bil, mae'r Cyngor Addysgu Cyffredinol yn pryderu nad oes cyfeiriad at allu'r Cyngor i gynnal gweithgareddau ym maes datblygiad proffesiynol parhaus. Mae'r Cyngor Addysgu yn ystyried bod diffyg cymal o'r fath yn 'hepgoriad pwysig'.⁵²

66. Mae'r Cyngor Addysgu yn credu y dylid sicrhau fod y swyddogaethau mewn perthynas â datblygiad proffesiynol yn cael eu nodi yn glir yn y Bil. Maent yn tynnu sylw at y perygl y gallai pethau eraill gael blaenoriaeth os na fydd hynny'n cael ei nodi ar wyneb y Bil.⁵³

Tystiolaeth y Gweinidog

67. Pan gafodd ei holi ynghylch yr anghydbwysedd canfyddedig rhwng ddau nod y Cyngor, dywedodd y Gweinidog:

⁴⁷ Tystiolaeth Ysgrifenedig, EB 15

⁴⁸ Tystiolaeth Ysgrifenedig, EB 15

⁴⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 134, 26 Medi 2013

⁵⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 240, 26 Medi 2013

⁵¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 243, 2 Hydref 2013

⁵² Tystiolaeth ysgrifenedig, EB 17

⁵³ Tystiolaeth ysgrifenedig, EB 17

“I think that what is set out on the face of the Bill, in terms of the main functions, gets the balance about right.”⁵⁴

68. Pan gafodd ei holi ynghylch gallu'r Cyngor i wneud darpariaethau datblygiad proffesiynol parhaus heb gyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru, dywedodd y Gweinidog:

“It is very important, to my mind, that the workforce council focuses on its job of work and that it is not necessarily going off and attempting, say, to duplicate a piece of work that Estyn might be tasked with doing. I think that there is a danger of that unless we make sure that there is rigour in terms of the job description of the workforce council.”⁵⁵

69. Aeth y Gweinidog ymlaen i ddweud bod nifer o bwerau i wneud rheoliadau yn ymwneud â datblygiad proffesiynol a safonau yn gysylltiedig â'r Bil.⁵⁶

Ein barn ni

70. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r dystiolaeth a gafwyd ynghylch y darpariaethau datblygiad proffesiynol parhaus yn y Bil ac mae o'r farn bod anghydbwysedd yn y Bil o ran rôl y Cyngor.

71. Mae'r Pwyllgor hefyd yn credu y dylai'r Gweinidog ddarparu rhagor o fanylion am rôl benodol y Cyngor yn hyn o beth.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog roi ystyriaeth bellach i'r darpariaethau datblygiad proffesiynol parhaus yn y Bil, yn enwedig yng nghyd-destun y dystiolaeth am yr anghydbwysedd rhwng y ddau nod a nodir yn y Bil. Hefyd, dylai'r Gweinidog rannu rheoliadau drafft perthnasol gyda'r Pwyllgor yn gynnar.

Ffioedd cofrestru a sylfeini ariannol y Cyngor newydd

72. Mae Adran 12 o'r Bil yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch y ffioedd y gall y Cyngor eu codi mewn cysylltiad â chofrestru. Mae

⁵⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 58, 24 Hydref 2013

⁵⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 60, 24 Hydref 2013

⁵⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 63, 24 Hydref 2013

hyn yn cynnwys swm y ffioedd y gellir eu codi a hefyd y dulliau y gellir eu defnyddio i gasglu'r ffioedd hynny.⁵⁷

73. Mae'r memorandwm esboniadol yn nodi y bydd ymgynghori pellach cyn gosod lefel y ffi.

74. Mae Atodiad 2 i'r Memorandwm Esboniadol yn cynnwys canlyniadau'r gwaith modelu y mae Llywodraeth Cymru wedi ei wneud ar drefniadau posibl ar gyfer ffi gofrestru newidiol sy'n seiliedig ar fandiau cyflog a lefelau cyfraniadau pensiwn. O dan drefniant o'r fath, byddai'r rheini sydd ar yr incymau isaf yn talu'r ffi isaf, neu ni fyddant yn talu ffi, gyda'r gyfradd yn cynyddu yn unol â'r bandiau cyflog.

Tystiolaeth gan dystion

75. Cafwyd barn gymysg ynghylch a ddylai cyfraniad unigolion at y ffi gofrestru fod yn seiliedig ar incwm, categori, neu hyd yn oed ffi cyfradd safonol, er bod y dystion, yn gyffredinol, yn croesawu a chydabod bwriad Llywodraeth Cymru i ymgynghori ymhellach yn 2014.

76. Ym marn y Cyngor Addysgu, mae'r mater hwn yn hanfodol i'r broses o ad-drefnu'r Cyngor a sicrhau bod ganddo incwm digonol i gyflawni ei swyddogaethau. Dywedodd bod y ffi yn hanfodol ar gyfer sefydliad annibynnol sy'n hunan-gyllido. Mae'r Cyngor Addysgu newydd yn credu bod yn rhaid 'ymddiried yn y Cyngor wedi'i ailgyflunio i osod ei ffioedd ei hun' gan mai 'dim ond fel hyn y bydd y Cyngor yn gallu cyllidebu'n briodol' a gweithredu ar 'sylfaen ariannol gadarn'.⁵⁸

77. Cododd y Cyngor Addysgu Cyffredinol nifer o bryderon ynghylch y darpariaethau am y ffi gofrestru. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Yr angen i wahaniaethu rhwng y broses o bennu ffioedd a'r trefniadau ar gyfer sybsideiddio'r costau i gofrestreion;
- Y ffaith fod proses fodelu Llywodraeth Cymru yn defnyddio lefel bresennol y ffi fel sail ar gyfer y ffi newydd.

78. Dywedodd y Cyngor Addysgu hefyd y byddai cynnydd yn y ffi yn anorfod yn 2015-16 ac y byddai angen gwneud hynny i sicrhau hyfywedd ariannol y corff newydd. Rhybuddiodd y Cyngor Addysgu y gallai methu â

⁵⁷ Ar hyn o bryd, mae athrawon yng Nghymru yn talu'r ffi gofrestru, sef £45, i'r Cyngor Addysgu Cyffredinol ac wedyn maent yn cael eu had-dalu gan eu cyflogwyr (awdurdodau lleol), sy'n cael cyllid gan Lywodraeth Cymru i wneud hyn.

⁵⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, EB 17

rhoi sylfaen ariannol sefydlog i'r corff newydd ei wneud yn agored i feirniadaeth.⁵⁹

79. Mewn tystiolaeth lafar, dywedodd y Cyngor Addysgu Cyffredinol y byddai angen i lefel y ffi fod rhwng £6 ac £8 yn uwch na'r lefel bresennol, sef £45.⁶⁰

80. Mynegwyd pryderon hefyd ynghylch sut y byddai'r ffi yn cael ei ddefnyddio. Safbwynt cyffredinol yr undebau addysg—yn enwedig yr NUT, NASUWT ac UCAC—a'r Cyngor Addysgu oedd na ddylid ariannu'r broses o hyrwyddo gyrfaedd o'r ffioedd cofrestru. Mae'r Cyngor yn dadlau bod 'hybu gyrfaedd yn y proffesiynau cofrestradwy yn gyfrifoldeb cyhoeddus a dylai gael ei ariannu o bwrs y wlad'.⁶¹

81. Cododd y Cyngor Addysgu hefyd bryderon ynghylch y ffigurau a ddarperir yn y Memorandwm Esboniadol ar gyfer hyrwyddo gyrfaedd (Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Bil yn dweud y bydd cyllideb o £100,000 ar gyfer hyrwyddo gyrfaedd⁶²). Dywed y Cyngor Addysgu bod hyn yn 'gwbl annigonol' o'i gymharu â'r £0.75 miliwn a wariwyd gan Lywodraeth Cymru o dan drefniadau cytundebol blaenorol gyda sefydliadau perthnasol yn Lloegr. Mae felly yn pwysleisio ei bod yn aneglur o hyd sut y bydd y gwaith o hyrwyddo gyrfaedd yn cael ei ariannu, boed hynny o incwm ffioedd neu gyllid ar wahân gan Lywodraeth Cymru.⁶³

82. Nododd yr NUT hefyd bod diffyg cyllid wedi'i nodi yn y Bil ar gyfer datblygiad proffesiynol a hyrwyddo gyrfaedd. Nid oedd yn credu bod yr adnoddau ar gael ar gyfer athrawon, a bod hynny'n sicr yn wir yn achos y categorïau eraill fydd yn cael eu cynnwys.⁶⁴

Tystiolaeth y Gweinidog

83. Pan gafodd ei holi ynghylch trefniadau ariannu'r Cyngor a'r diffyg eglurder o ran y ffigurau hyn, dywedodd y Gweinidog bod angen sicrhau cydbwysedd o ran bod y Cyngor yn hunangyllido. Dywedodd:

“it is very clear that the intent of the legislation is that the council should be more than the maintainer of a list. This is about a dynamic, professional process between the council and the professionals

⁵⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, EB 17

⁶⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 215, 2 Hydref 2013

⁶¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, EB 17

⁶² Memorandwm Esboniadol paragraff 303

⁶³ Tystiolaeth ysgrifenedig, EB 17

⁶⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 137, 26 Medi 2013

involved. It is about professional development; it is about standards. It is not just about maintaining a register.⁶⁵

84. Aeth un o swyddogion y Gweinidog ymlaen i egluro'r dryswch ynghylch y cyllid ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus. Dywedodd:

“I thought that I just might helpfully clarify the £0.75 million. That is a long since historic figure, from when we worked with the Department for Education in England with the teacher development agency. So, it was about marketing campaigns—you may remember the advertisements for getting into teaching. The figure has not been anywhere near that amount for some considerable time. The sum of money that we have is, and currently remains at, £100,000.”⁶⁶

Ein barn ni

85. Mae'r Pwyllgor yn credu bod y wybodaeth ariannol yn y Bil yn annigonol ac mae'n credu y dylid rhoi ystyriaeth bellach i sut y bydd y corff newydd yn cael ei ariannu.

86. Mae'r Pwyllgor yn credu y dylai unrhyw ffi a bennir fod yn deg - o ran y gwahaniaeth yng nghyflogau'r bobl sy'n talu ffioedd, a gwahanol sectorau - ac y dylid ystyried y ffi a godir ar gyfer athrawon cyflenwi.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Cyngor bennu ei ffioedd ei hun, ond y dylai Gweinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau, yn seiliedig ar egwyddorion tegwch a chydaddoldeb, ar bennu ffioedd cofrestru.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Gweinidog yn egluro lefel y cyllid a fydd ar gael ar gyfer rôl y Cyngor o ran datblygiad proffesiynol parhaus a hyrwyddo gyrfaedd, a sut y bydd y rhain yn cael eu darparu yn ymarferol.

⁶⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 77, 24 Hydref 2013

⁶⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 78, 24 Hydref 2013

6. Diwygio trefn cofrestru a chymeradwyo ysgolion annibynnol mewn perthynas ag anghenion addysgol arbennig

87. Mae'r Bil yn ceisio dileu'r arfer o ddyblygu gofynion cofrestru mewn perthynas â'r modd y mae ysgolion annibynnol yn cofrestru i dderbyn dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig, er mwyn lleihau dyblygu a chynyddu'r wybodaeth sydd ar gael am ddarpariaeth AAA mewn ysgolion annibynnol.

88. Mae'r memorandwm esboniadol yn amlinellu'r trefniadau deddfwriaethol presennol, sef,

- rhaid i unrhyw sefydliad sydd am weithredu fel ysgol annibynnol wneud cais i Weinidogion Cymru o dan adran 160 o Ddeddf Addysg 2002 ('Deddf 2002');
- rhaid i ysgolion annibynnol sy'n derbyn disgyblion â datganiadau AAA gael eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru yn gyntaf o dan adran 347 o Ddeddf Addysg 1996 ('Deddf 1996').

89. Mae'r Bil yn anelu at greu un proses. Byddai hyn yn cael ei gyflawni trwy ddi-ddymu adran 347 o Ddeddf 1996 o ran y modd y caiff ei gymhwyso i Gymru, wrth ddiwygio adran 160 o Ddeddf 2002, er mwyn creu un broses. Bydd angen i ysgolion annibynnol a gofrestrwyd o dan y broses adran 160 newydd nodi'r math o ddarpariaeth AAA y maent yn ei chynnig.

90. Byddai diddymu adran 347 yn dileu'r broses caniatâd unigol presennol ar gyfer pob cais gan awdurdod lleol i osod plentyn ag AAA mewn ysgol annibynnol nad oes ganddo gymeradwyaeth gyffredinol.

Tystiolaeth gan dystion

91. Yn gyffredinol, roedd y dystiolaeth yn cefnogi'r angen i symleiddio'r broses.

92. Croesawodd Diverse Cymru y ffaith y bydd y broses yn cael ei symleiddio a'i hegluro a dywedodd y gall achosion o oedi gael effaith ddifrifol ar blant anabl.

93. Cytunodd SNAP Cymru â hyn, gan ddweud bod angen i bobl ifanc a'u teuluoedd, yn ogystal ag ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol aml-

asiantaethol, ddeall y broses er mwyn cynorthwyo penderfyniadau am leoliadau.

94. Fodd bynnag, roedd nifer o bryderon ynghylch goblygiadau dileu'r broses o ystyried lleoliadau fesul achos unigol.

95. Cafodd y pryderon mwyaf sylweddol eu codi gan Estyn, er ei fod yn gefnogol o bwyslais cyffredinol y cynigion. Mae'r rhain yn ymwneud â diddymu'r broses 'ganiatâu' unigol o dan adran 347. Mae'r broses hon yn sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn ystyried pob cais unigol gan awdurdod lleol i osod plentyn ag AAA mewn ysgol annibynnol nad oes ganddo gymeradwyaeth gyffredinol o ran derbyn. Yn ymarferol, mae Estyn yn cynghori ar y broses hon.

96. Mae Estyn yn dadlau bod hyn yn darparu rhwyd ddiogelwch, sy'n gwarchod yn erbyn y ffaith nad yw awdurdodau lleoli, yn ei brofiad ef, bob amser yn cymryd digon o ofal i sicrhau bod ysgol yn gallu diwallu anghenion addysgol arbennig y disgybl.⁶⁷ Felly, mae'r hyn a ystyrir gan Lywodraeth Cymru yn 'ddyblygu'⁶⁸ - barn a gefnogir i raddau gan rannau o'r trydydd sector - yn cael ei ystyried gan Estyn yn fesur diogelu pwysig.

97. O dan y Bil, byddai Estyn yn cynnal arolygiad blynyddol o bob ysgol annibynnol sydd wedi cofrestru ar gyfer darpariaeth AAA, ond mae'r arolygiaeth yn rhybuddio na fydd hyn yn gwneud iawn am golli'r system ganiatâd, gan nad yw'r broses fonitro flynyddol yn ystyried pa mor briodol yw lleoliadau unigol. At hynny, byddai'r broses fonitro flynyddol yn ôl-weithredol. Fel y dywedodd Estyn, gallai plentyn gael ei osod yn amhriodol mewn ysgol, a gallai 12 mis fynd heibio cyn ymweliad monitro blynyddol. Dywedodd Estyn hefyd nad yw'r broses fonitro yn canolbwyntio ar y ddarpariaeth i ddisgyblion unigol ag AAA i'r un graddau ag y mae'r cyngor y mae'n ei roi o dan y system ganiatâu bresennol yn ei wneud.

98. Mae ymweliadau monitro blynyddol Estyn yn canolbwyntio'n bennaf ar gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003. Dywedodd nad yw'r Safonau hyn yn rhoi digon o bwyslais ar rôl yr ysgol o ran diwallu anghenion arbennig pob disgybl (ni waeth a ydynt yn cael eu hariannu gan awdurdod lleol ai peidio). Nid yw geiriad presennol y Safonau

⁶⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, EB 06

⁶⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 112, 24 Hydref 2013

yn ddigon cadarn i amddiffyn dysgwyr sy'n agored i niwed, unwaith y bydd caniatâd AAA yn cael ei ddileu.⁶⁹

99. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, roedd Estyn yn ymddangos yn amheugar ynghylch y disgwyliad y byddai awdurdodau lleol yn cyflawni'r amcan o osod dysgwyr ag AAA mewn ysgol annibynnol mewn modd boddhaol. Dywedodd nad yw awdurdodau lleol, yn gyffredinol, yn monitro ansawdd lleoliadau addysgol yn ddigon da.⁷⁰ Yn dilyn hynny, cymhwysodd Estyn hyn, gan ddweud wrth y Pwyllgor, ar 2 Hydref, nad oedd yn dweud nad oedd awdurdodau lleol yn y sefyllfa orau i wneud penderfyniadau, neu nad ydynt yn gallu gwneud hynny, a bod lleoliadau fel arfer yn briodol.⁷¹ Fodd bynnag, cadarnhaodd Estyn ei fod, ar y cyfan, o blaid y system caniatâd gan ei fod yn caniatáu iddo roi cyngor ar pa mor addas yw lleoliad ar gyfer plentyn unigol, gan bwysleisio bod hyn yn fesur diogelu mwy effeithiol na'r monitro blynyddol arfaethedig.⁷²

100. Roedd pryderon Estyn ynghylch dileu cymeradwyaeth ar sail achosion unigol yn ategu amheuron yr NASUWT am rinweddau'r cynnig hwn, gan ei fod yn cynrychioli newid o ddull gweithredu sy'n seiliedig ar y plentyn i ddull sy'n seiliedig ar yr ysgol.⁷³

101. Dywedodd un o swyddogion Estyn: 'I have always felt that the Welsh Government provided the safety net for the child and that there would be someone looking at this, not from the local authority perspective, but from the perspective of the needs of the child, hopefully without having to look at the funding arrangements ...'⁷⁴

102. Gofynnodd Estyn hefyd gwestiynau am fforddiadwyedd yr ymweliadau monitro blynyddol y byddai disgwyl iddo eu cynnal. Roedd yr arolygiaeth yn cwestiynu'r costau a amcangyfrifwyd yn y Bil o ran y nifer o ysgolion annibynnol y bydd angen iddo ymweld â hwy a'r adnoddau fydd eu hangen ar yr arolygwyr.⁷⁵ Gwnaethant hefyd gadarnhau na fu unrhyw drafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ar y mater hwn.⁷⁶

103. Codwyd pryderon hefyd ynghylch y wybodaeth sy'n ofynnol o dan y broses adran 160. Roedd yr NDCS a'r RNIB yn tynnu sylw at y ffaith ei bod yn

⁶⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, EB 06

⁷⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, EB 06

⁷¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 304, 2 Hydref 2013

⁷² Cofnod y Trafodion, paragraff 294, 2 Hydref 2013

⁷³ Tystiolaeth Ysgrifenedig, EB 15

⁷⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 180, 26 Medi, 2013

⁷⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 271, 2 Hydref 2013

⁷⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 287, 2 Hydref 2013

ofynnol, mewn cais o dan adran 347, i ystyried cymwysterau athrawon a gyflogir i gefnogi disgyblion sydd â nam ar y clyw, nam ar y golwg neu nam amlsynhwyraidd. Mae'r NDCS a'r RNIB yn galw un broses adran 160 diwygiedig sy'n cynnwys mwy o fanylion am y ddarpariaeth benodol ar gyfer disgyblion sydd â nam ar y synhwyrau.⁷⁷

104. Yng nghyfarfod y Pwyllgor, roedd yr NDCS yn cynrychioli Cynghrais Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector, a mynegodd ei amheuan ynghylch y potensial ar gyfer llai o fanylder a chywirdeb o ran gwneud yn siŵr bod ysgolion yn addas ar gyfer disgyblion ag AAA. Dywedodd ei fod yn nerfus ynghylch colli'r manylion yn adran 347 ac roedd yn annog Llywodraeth Cymru i ystyried sut y gallai gryfhau adran 160.⁷⁸

105. Byddai'r Cynghrais Anghenion Ychwanegol yn hoffi gweld canllawiau digonol ar gyfer awdurdodau lleol neu gonsortia rhanbarthol fel y gallant ddod o hyd i ddarpariaeth i ddiwallu anghenion dysgwyr. Hefyd, gofynnodd am sicrwydd y bydd adran 160 yn ddigonol, gan ei fod yn rhy wan ar hyn o bryd.⁷⁹

106. Roedd SNAP Cymru'n cytuno â'r pryderon hyn, gan bwysleisio bod angen mwy o eglurder ynghylch a fydd ysgol annibynnol yn nodi ei fod yn derbyn dysgwyr.

Tystiolaeth y Gweinidog

107. O ran y materion yn ymwneud â diogelu, dywedodd y Gweinidog:

“Local authorities should be more than capable of making a decision on the appropriateness of a placement, best based on the individual’s statement and Estyn’s annual monitoring report of the setting. Taken together, that is a much more robust system than the one that we have at the moment.”⁸⁰

108. O ran y wybodaeth wahanol sy'n ofynnol o dan adran 160 ac adran 347, dywedodd cyngorydd y Gweinidog:

“The difficulty here is that at the moment we have a mixed economy. We have some placements and registrations under one part of the legislation and some under another, and children are being placed in different ways. So, we are looking broadly here for consistency—one

⁷⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, EB 23

⁷⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 7, 10 Hydref 2013

⁷⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 10, 24 Hydref 2013

⁸⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 101, 24 Hydref 2013

single register. It will still fall to the local authority to reassure itself that an individual placement for a child is suitable to meet their needs and then to review that placement on a regular basis to ensure that it continues to meet that need. Registering under section 160 will provide clarity across all schools that wish to offer themselves to take children with SEN and provide consistent evidence of who may be able to meet which needs. From there, it is for the local authority.”⁸¹

109. Mae'r Gweinidog wedi rhoi llythyr i'r Pwyllgor sy'n nodi bod tair ysgol annibynnol wedi ymateb i ymgynghoriad y Llywodraeth. Nododd y llythyr fod dwy ysgol annibynnol yn cytuno â'r cynigion, ond bod un yn anghytuno. Mae'r llythyr wedi'i atodi i'r adroddiad hwn.

Ein barn ni

110. Er y gall y Pwyllgor weld anfanteision y system bresennol o ran dyblygu a chymhlethdod, nid yw'r Pwyllgor wedi'i argyhoeddi y bydd y newidiadau arfaethedig yn rhoi dull diogelu digonol, o ystyried na fydd Llywodraeth Cymru, ac, yn ymarferol, Estyn, yn ystyried achosion unigol.

111. Gwelodd y Pwyllgor bod y dystiolaeth gan Estyn yn bwerus, yn enwedig ei bryderon ynghylch colli caniatâd unigol, sy'n rhwyd diogelwch yn ei farn ef. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod gwahaniaeth barn rhwng y Gweinidog ac Estyn ynghylch a fydd gan y trefniadau arfaethedig ddulliau diogelu mwy cadarn. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod ymgynghoriad y Llywodraeth wedi cael tystiolaeth gan ddwy ysgol annibynnol o blaid y newidiadau. Fodd bynnag, gan na roddwyd tystiolaeth i'r Pwyllgor o blaid y system newydd arfaethedig ar gyfer cymeradwyo ysgolion annibynnol, ni all y Pwyllgor gefnogi'r newidiadau.

Nid yw'r Pwyllgor yn erbyn y syniad o symleiddio'r broses ddeddfwriaethol ar gyfer derbyn dysgwyr ag AAA i ysgolion annibynnol a lleihau'r cymhlethdod, ond mae'n argymhell y dylai'r Gweinidog ailystyried y cynnig i ddiddymu'r broses bresennol o gymeradwyo ar sail achosion unigol, gan gynnwys ystyried a fydd digon o fesurau diogelu ar waith.

⁸¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 125, 24 Hydref 2013

7. Aseu anghenion addysgol a hyfforddiant ôl-16 ac Addysg Bellach arbenigol

112. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y bydd y Bil:

"hefyd yn darparu ar gyfer pontio gwell i ddysgwyr ag AAA o'r ysgol i addysg bellach drwy osod cyfrifoldeb am aseu anghenion dysgwyr ag anawsterau a/neu anabledau dysgu, ac am sicrhau eu bod yn derbyn addysg ôl-16 arbenigol, ar yr awdurdod lleol."⁸²

113. Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn nodi:

"Mae'r Bil yn ceisio gwella'r dull o aseu anghenion dysgu ychwanegol dysgwyr ôl-16. Mae'n ceisio cynorthwyo gyda chynllunio gwell ar gyfer pontio pan fydd dysgwyr yn symud o'r ysgol i addysg bellach, a hwyluso cyswllt gwell rhwng ysgolion, awdurdodau lleol a cholegau addysg bellach a darparwyr arbenigol. Ei brif nod yw creu system lai cymhleth a biwrocraidd sy'n bodloni ac yn diogelu anghenion dysgwyr yn well a hefyd yn cynnig gwerth am arian."⁸³

Tystiolaeth gan dystion

114. Roedd y dystiolaeth yn dangos cefnogaeth gyffredinol i'r bwriad o sefydlu system symlach, llai cymhleth a llai biwrocraidd sy'n darparu cyfnod pontio gwell ar gyfer dysgwyr rhwng yr ysgol ac addysg ôl-16.

115. Roedd y sylwadau a'r pryderon yn canolbwyntio ar gapasiti awdurdodau lleol o ran adnoddau ac arbenigedd, y posibilrwydd y bydd gwrthdaro buddiannau rhwng awdurdodau lleol, a'r ddibyniaeth ar ddatganiadau fel sail i'r ddyletswydd i gynnal asesiadau Anghenion Addysg a Hyfforddi.

116. O ran y goblygiadau ariannol, tra bod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cefnogi'r egwyddor o roi'r rôl hon i awdurdodau lleol, roedd ganddo bryderon difrifol am y goblygiadau ariannol ac roedd yn credu bod angen cynnal asesiad realistig o'r costau i awdurdodau lleol yn sgîl ymgymryd â dyletswyddau ychwanegol o ran aseu a darpariaeth. Dywedodd wrth y Pwyllgor bod y pwysau yn anodd eu rhagweld ac yn anodd iawn i'w rheoli ac y byddai, yn anochel, yn broblem.⁸⁴

⁸² Memorandwm Esboniadol, paragraff 8

⁸³ Memorandwm Esboniadol, paragraff 95

⁸⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 291, 26 Medi, 2013

117. Cytunodd UCAC â'r pryderon hyn. Roedd 'am fod yn sicr bod trosglwyddo'r cyfrifoldebau i awdurdodau lleol yn mynd law yn llaw â throsglwyddo adnoddau digonol i weithredu'r cyfrifoldeb yn effeithiol'. Dywedodd yr NASUWT bod angen sicrhau nad oes unrhyw gostau cudd posibl i awdurdodau lleol.⁸⁵

118. Mynegwyd pryderon hefyd ynglŷn â'r arbenigedd sydd ei angen o fewn awdurdodau lleol i gynnal yr asesiadau. Dywedodd Cymdeithas y Colegau Arbenigol Cenedlaethol bod angen staff cymwys a phrofiadol i wneud yr asesiadau ac nid oedd yn glir pwy fyddai â'r sgiliau a'r arbenigedd i wneud hyn mewn awdurdodau lleol.⁸⁶

119. Daeth y mater hwn i'r amlwg hefyd yn y grwpiau ffocws a gynhaliwyd gan dîm Allgymorth y Cynulliad. Dywedodd cynrychiolwyr o Rhondda Cynon Taf a Sir Fynwy dywedodd nad yw'r arbenigedd i gynnal asesiadau yno ar hyn o bryd.⁸⁷

120. Dywedodd Cynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector wrth y Pwyllgor fod ei haelodau yn gofyn pwy o fewn awdurdodau lleol fydd yn cynnal yr asesiad, gan bwysleisio pa mor bwysig ydyw i sicrhau bod pwy bynnag sy'n gwneud hyn wedi cael hyfforddiant digonol. Dywedodd y Cynghrair: 'under the current system, that is something that we struggle with and something that we would really like to see being addressed'.⁸⁸

121. Dywedodd Gwasanaeth Seicoleg Addysg a Phlant Cyngor Sir Caerfyrddin mai seicolegwyr addysg fyddai'r gweithwyr proffesiynol mwyaf cymwys a phriodol i ymgymryd ag asesiadau ôl-16 gan eu bod mewn sefyllfa dda i ddarparu asesiad holistig o anghenion y person ifanc. Fodd bynnag, dywedodd hefyd nad oedd digon ohonynt, a bod heriau o ran cynllunio gweithlu i sicrhau y bydd nifer digonol yn y dyfodol.⁸⁹

122. Un pryder cyffredin a godwyd yn y dystiolaeth oedd y potensial y gallai fod gwrthdaro buddiannau mewn awdurdodau lleol oherwydd eu rôl ddeuol wrth asesu anghenion a gwneud penderfyniadau ynglŷn â sut y mae'r rhain yn cael eu diwallu.

⁸⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, EB 15

⁸⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, EB 24

⁸⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, EB 30 & EB 31

⁸⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 97, 10 Hydref 2013

⁸⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, EB 21

123. Roedd yr NDCS a'r RNIB yn pryderu y byddai gan awdurdodau lleol gymhelliant i gefnogi dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol mewn lleoliad addysg bellach prif ffrwd, na fydd yn rhaid iddynt eu hariannu.⁹⁰

124. Roedd Estyn yn cydnabod mai'r bwloch amlwg yn y rheolau oedd y demtasiwn i awdurdodau lleol drefnu lleoliadau mewn sefydliadau addysg bellach, yn hytrach na mewn colegau arbenigol y byddai'n rhaid iddynt eu hariannu eu hunain.⁹¹ Roedd yr arolygiaeth hefyd yn gofyn y cwestiwn hwn yn ei dystiolaeth ysgrifenedig: 'is there a risk that, in the light of financial pressures, [local authorities] will seek cheaper options rather than those that best meet the needs of the learners?'⁹²

125. Dywedodd y Gynghrair Anghenion Ychwanegol bod ganddi lawer o bryderon am hyn:

"My biggest concern is that local authorities are not the sole funder. ... That gives local authorities a massive incentive to push towards the mainstream, which really worries us in relation to this Bill. If this Bill is to go ahead, we really need to look at that in more detail and make sure there is appropriate monitoring of that situation."⁹³

126. Un o'r materion a amlygwyd fel un sy'n arbennig o arwyddocaol yw'r ffaith y bydd awdurdodau lleol yn cyllido rhai, ac nid pob un o'r opsiynau o ran darpariaeth sydd ar gael iddynt i'w hargymell. Amlygwyd y gwahaniaeth yn achos plant iau nag 16 oed sydd ag AAA, lle mae'r awdurdod lleol yn ysgwyddo'r costau beth bynnag fo'r ddarpariaeth a benderfynnir arni. Dywedodd y Gynghrair wrth y Pwyllgor:

"I think it is slightly different from the current situation, because, when you are looking at schools, yes, local authorities are the assessors and funders, but they are the funders of all support, whereas, under this legislation, they will be the assessors of all support and the funders of only part of the support, which leads them to the big incentive."⁹⁴

127. Cafodd y sefyllfa ei chrynhai gan Gymdeithas y Colegau Arbenigol Cenedlaethol:

⁹⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, EB 23

⁹¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 328, 2 Hydref 2013

⁹² Tystiolaeth ysgrifenedig, EB 06

⁹³ Cofnod y Trafodion, paragraff 72, 10 Hydref 2013

⁹⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 106, 10 Hydref 2013

“The local authority [will act] as assessor for all, but only as commissioner and funder for some – those assessed to need specialist provision. There is therefore a **perverse incentive for local authorities to assess for [further education] places** because they will not have to bear their cost. [Eu pwyslais nhw]”⁹⁵

128. O ganlyniad, roedd nifer o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad, gan gynnwys aelodau'r Gynghrair Anghenion Ychwanegol, Afasic Cymru⁹⁶ a'r Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol⁹⁷, yn eu tystiolaeth unigol, yn galw am neilltuo arian yn y maes hwn er mwyn sicrhau nad yw'n cael ei amsugno yn sgîl pwysau cost eraill awdurdodau lleol.

129. Fodd bynnag, dywedodd y Gynghrair Anghenion Ychwanegol (a oedd yn cael ei gynrychioli gan yr NDCS) wrth y Pwyllgor mai dim ond un opsiwn oedd neilltuo cyllid ac mai monitro dyletswyddau mewn modd cadarn yw'r ffordd ymlaen.⁹⁸

130. Roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cydnabod, i raddau, y potensial ar gyfer gwrthdaro rhwng buddiannau awdurdodau lleol, ond cyfeiriodd at fesurau diogelu a'r broses apelio fel mesurau gwrthbwysio digonol.⁹⁹

131. Roedd y dystiolaeth a gafwyd yn nodi pryderon bod y darpariaethau o dan Adran 44 y Bil ynghylch y ddyletswydd i gynnal asesiad Anghenion Addysg a Hyfforddiant dim ond yn berthnasol os oes gan ddysgwr ddatganiad AAA. Mae adran 44 hefyd yn rhoi pŵer disgrisiwn lle caiff awdurdod lleol gynnal asesiad ar gyfer unrhyw ddysgwr y mae'n ymddangos bod ganddo anhawster dysgu o'r flwyddyn olaf o addysg orfodol hyd at 25 oed.

132. Cododd Comisiynydd Plant Cymru bryderon ynghylch y ffiniau rhwng dyletswyddau gorfodol a phwerau dewisol.¹⁰⁰

133. Cyfeiriodd Estyn at y gwahaniaeth anffodus¹⁰¹ rhwng gwahanol lefelau o angen.

⁹⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, EB 24

⁹⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, EB 18

⁹⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, EB 19

⁹⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 95, 10 Hydref 2013

⁹⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 312, 26 Medi 2013

¹⁰⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, EB 06

¹⁰¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 303, 2 Hydref 2013

134. Roedd y dystiolaeth yn dangos bod amrywiaeth o ran y graddau y mae awdurdodau lleol yn defnyddio datganiadau, a sut mae hyn yn arwain at sefyllfa lle mae disgyblion sydd ag anghenion tebyg yn cael eu trin yn wahanol mewn gwahanol awdurdodau o ran cael datganiadau. O fewn holl ysgolion annibynnol Cymru, mae Estyn yn adrodd nad oes gan 11.8% o'r disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig ddatganiad, tra bo gan 4.4% ddatganiad.¹⁰²

135. Mae Estyn yn nodi bod awdurdodau lleol, dros y blynyddoedd diwethaf, wedi ceisio lleihau nifer y datganiadau y maent yn eu cyhoeddi, a'u bod yn ceisio darparu cymorth drwy ddau gam arall o gefnogaeth, sef 'Gweithredu gan yr Ysgol' a 'Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy'.¹⁰³

136. Dywedodd SNAP Cymru nad datganiadau oedd y prif ystyriaeth, ond yn hytrach a yw anghenion yn cael eu bodloni:

“[The issuing of statements] is not the marker of whether a child’s needs are being met. A child’s needs are met if they are assessed correctly...Careers Wales has in my experience, always assessed children without statements as well as the request of the school. That has been done, although it might not have been in its remit.”¹⁰⁴

137. Pwysleisiodd y Gynghair Anghenion Ychwanegol na ddylai darpariaeth ar gyfer disgyblion ôl-16 fod yn ddibynnol ar ewyllys da yn unig, a gofynnodd i Lywodraeth Cymru ystyried y canlynol:

“expanding the access criteria to include those who are eligible for a statement, as opposed to only those who have a statement, and to include those who feel that their needs are going to increase.”¹⁰⁵

138. Roedd y dystiolaeth hefyd yn nodi pryderon ynghylch yr amserlen i awdurdodau lleol ar gyfer cynnal yr asesiadau a gwneud penderfyniadau am leoliadau. Roedd y Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth yn galw am welliant i'r Bil a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud penderfyniadau cyllido erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn. Mae hyn yn dilyn argymhelliad tebyg a wnaed gan y Pwyllgor Menter a Dysgu yn ei ymchwiliad i [ddarpariaeth arbenigol i bobl ifanc ag awtistiaeth mewn addysg bellach](http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-third-assembly/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-report/bus-committees-third-el-report-el3-10-r04.htm)¹⁰⁶,

¹⁰² Tystiolaeth ysgrifenedig, EB 06

¹⁰³ Tystiolaeth ysgrifenedig, EB 07

¹⁰⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 98, 10 Hydref 2013

¹⁰⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 78. 10 Hydref 2013

¹⁰⁶ <http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-third-assembly/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-report/bus-committees-third-el-report-el3-10-r04.htm>

ond mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan y gymdeithas awtistiaeth yn dangos nad yw teuluoedd, yn gyffredinol, yn cael penderfyniad erbyn diwedd mis Mawrth yn y flwyddyn lle byddai'r ddarpariaeth addysg yn dechrau ym mis Medi.¹⁰⁷

139. Mynegodd Diverse Cymru bryderon hefyd am yr amserlen yn y Bil ar gyfer apeliadau yn erbyn methiant i gwblhau asesiadau ar ôl i gais gael ei wneud yn y flwyddyn olaf o addysg orfodol.¹⁰⁸ Yn hytrach na gorfod aros chwe mis cyn gwneud apêl, fel y nodir yn y Bil, mae'n dadlau y dylid gostwng hyn i chwe wythnos. Roedd yr NDCS a'r RNIB hefyd yn siomedig gyda'r amserlen o chwe mis.¹⁰⁹

Tystiolaeth y Gweinidog

140. Gofynnwyd i'r Gweinidog sut y mae awdurdodau lleol wedi ymateb i'r newidiadau arfaethedig. Dywedodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru a oedd yn rhoi tystiolaeth gyda'r Gweinidog bod trafodaethau gyda llywodraeth leol yn dangos eu bod yn gymharol gyfforddus â'r cynigion bras.¹¹⁰

141. Pan gafodd y Gweinidog ei holi am y goblygiadau i awdurdodau lleol o ran adnoddau, cyfeiriodd y Gweinidog y Pwyllgor at y costau a nodir yn y Memorandwm Esboniadol. Dywedodd:

“Details that are related to the skills and the expertise would be taken into account as part of the transition planning that we would have to go through with local authorities.”¹¹¹

142. O ran gwrthdaro posibl rhwng buddiannau yn achos awdurdodau lleol sydd o dan gyfyngiadau ariannol, dywedodd y Gweinidog:

“If the local authority fails in its duty to the learner, it will have failed. Safeguards are built into the system to make sure that there is recourse for a parent and a child to take. The duty is there upon local government to make sure that the needs of the learner are satisfied. If they are not, the system provides a path of recourse because the local authority has failed in its duty.”¹¹²

¹⁰⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, EB 19

¹⁰⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, EB 10

¹⁰⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, EB 23

¹¹⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 182, 17 Gorffennaf 2013

¹¹¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 143, 24 Hydref 2013

¹¹² Cofnod y Trafodion, paragraff 108, 24 Hydref 2013

143. O ran y ddyletswydd statudol i asesu dysgwyr sydd â datganiad a'r ddyletswydd disgrisiwn i asesu dysgwyr y mae'n ymddangos bod ganddynt angen dysgu, dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor y byddai'r meini prawf a'r amgylchiadau lle y byddai'n briodol i awdurdod lleol ddefnyddio ei bŵer dewisol, yn hytrach na'i ddyletswydd, yn cael sylw mewn cod ymddygiad.¹¹³

144. Pan gafodd ei holi ymhellach ynghylch y ddibyniaeth ar gael datganiad, dywedodd y Gweinidog:

“There are currently two categories of learners: those with statements and those without. The proposals in the Bill have to be set in the context of the current statutory requirements for SEN, and the entitlement to assessment has to be consistent with those currently available to learners with and without statements. That does not mean that young people without a statement cannot request them, and there would also be a right of appeal to a decision not to carry out an assessment.”¹¹⁴

145. Dywedodd un o swyddogion y Gweinidog:

“we can identify learners with statements as a specific group. Learners beyond that who may need an assessment post-16 are more difficult to define on the face of the Bill. However, the code of practice, the statutory guidance, that will sit alongside it will set out guidelines to learners that would fall into that group, those who we would expect to normally receive an assessment.”¹¹⁵

146. Gofynnwyd i'r Gweinidog hefyd ystyried newid yr amserlenni sy'n ymwneud ag asesiadau ôl-16. Dywedodd y byddai rheoliadau yn cynnwys manylion am amserlennu. Dywedodd:

“I will undertake to do some further work on that as well as part of the run-up to the detail being drawn up on timetabling. The content of regulations would be subject to consultation as well.”¹¹⁶

¹¹³ Cofnod y Trafodion, paragraff 32, 17 Gorffennaf 2013

¹¹⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 148, 24 Hydref 2013

¹¹⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 149, 24 Hydref 2013

¹¹⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 157, 24 Hydref 2013

Ein barn ni

147. Fel y manylir yn yr adran 'Egwyddorion Cyffredinol' yn yr adroddiad hwn, mae'r Pwyllgor yn credu y byddai'r darpariaethau hyn yn fwy addas mewn Bil AAA penodol. Mae'r Pwyllgor yn credu y dylid defnyddio dull holistig ar gyfer cefnogi addysg dysgwyr a bod y gwahanu hwn rhwng cyn 16 ac ôl-16 yn cynyddu'r posibilrwydd na fydd dysgwyr y mae angen cymorth arnynt yn cael eu canfod.

148. Mae'r Pwyllgor yn credu bod y dystiolaeth a gafwyd yn gwneud achos cryf dros ddileu'r darpariaethau hyn yn y Bil a'u hystyried ymhellach.

149. Mae'r Pwyllgor yn deall y gallai hyn achosi oedi o ran rhoi cymorth i rai dysgwyr, ond mae'n credu'n gryf bod hyn yn well na bwrw ymlaen â gweithdrefnau annigonol.

150. Wrth ddod i benderfyniad, cafodd y Pwyllgor ei ddylanwadu gan y amrywiadau sylweddol rhwng awdurdodau lleol yng Nghymru o ran cyhoeddi datganiadau a'r arfer o ran diwallu AAA ac Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae'n nodi bod y ddyletswydd ar awdurdodau lleol i gynnal asesiad yn seiliedig ar a oes gan y dysgwr hwnnw ddatganiad, er gwaethaf y lefel hon o amrywiad a chyfeiriad polisi datganedig Llywodraeth Cymru tuag at gyflwyno Cynlluniau Datblygu Unigol yn lle datganiadau a chyflwyno'r cysyniad o anghenion dysgu ychwanegol yn lle AAA.

151. Os bydd y Gweinidog yn penderfynu peidio â dileu'r darpariaethau hyn, mae'r Pwyllgor yn gwneud y sylwadau a'r argymhellion a ganlyn.

Mae'r Pwyllgor yn cytuno bod risg y bydd newid y weithdrefn ar gyfer asesu a chefnogi addysg ar gyfer dysgwyr ôl-16 yn arwain at wrthdaro rhwng buddiannau awdurdodau lleol. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod awdurdodau lleol yn wynebu cyfnod parhaus o gynt economaidd ac mae'n argymhell bod y Gweinidog yn rhoi sicrwydd ac yn cyhoeddi canllawiau i sicrhau bod penderfyniadau cyllido yn cael eu gwneud ar sail angen addysgol yn unig, ac nid ar sail pwysau ar y gyllideb.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn credu bod y pryderon ynghylch arbenigedd awdurdodau lleol i wneud y gwaith y mae angen ei wneud yn ddilys, ac mae'r Pwyllgor yn nodi yn arbennig y dystiolaeth ynghylch y diffyg seicolegwr addysg yng Nghymru.

Mae'r Pwyllgor yn cytuno bod y gwahaniaeth rhwng y ddyletswydd statudol a'r pŵer disgresiwn yn creu sefyllfa lle y gallai dysgwyr sydd angen cefnogaeth gael eu colli, ac mae'n argymhell y dylai'r Gweinidog adolygu'r adran hon.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylid ailystyried yr amserlen a nodir yn y Bil o ran faint o amser y mae'n rhaid i ddysgwr aros cyn cyflwyno apêl yn erbyn methiant i gwblhau asesiad, yn ogystal â'r terfyn amser ar gyfer gwneud penderfyniadau.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog adolygu'r gwahaniaeth rhwng y ddyletswydd statudol a'r pŵer disgresiwn yn Adran 44 a'i ddibyniaeth ar a oes gan ddysgwr ddatganiad AAA. Mae'r Pwyllgor yn credu'n gryf bod yr adran hon yn caniatáu ar gyfer canlyniadau anghyfartal i ddysgwyr oherwydd yr amrywiad rhwng awdurdodau lleol a'i fod yn peri risg ar gyfer dysgwyr sydd angen cymorth.

8. Dyddiadau tymhorau ysgolion

152. Ar hyn o bryd, mae dyddiadau tymhorau ysgolion yn cael eu pennu gan awdurdodau lleol ar gyfer ysgolion cymunedol, ysgolion arbennig, ysgolion gwirfoddol a reolir ac ysgolion meithrin, a chan gyrff llywodraethu ar gyfer ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr ac ysgolion sefydledig.

153. Mae'r Bil yn ceisio cysoni dyddiadau tymhorau ysgol (ac, felly, dyddiadau gwyliau) ledled Cymru drwy osod cyfrifoldeb ar awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr ac ysgolion sefydledig yng Nghymru i weithio gyda'i gilydd i gyd-drefnu dyddiadau tymhorau.

154. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi:

“Bydd y Bil yn sicrhau mwy o gysondeb drwy newid y ffordd y mae dyddiadau tymhorau ysgolion yn cael eu pennu er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cysoni ar draws pob ysgol a gynhelir yng Nghymru.”¹¹⁷

155. Fodd bynnag, bydd y Bil yn caniatáu ar gyfer amrywiadau yn achlysurol iawn, lle gellir cyfiawnhau hynny yn llawn.

156. Mae'r Bil hefyd yn cynnwys pŵer disgrisiwn i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i'r cyrrff sy'n gyfrifol ac i ymyrryd lle bo angen, drwy ddweud wrthynt beth y mae'n rhaid i'r dyddiadau fod.

157. Yn ogystal â hyn, hyd yn oed pan fydd dyddiadau wedi cael eu cytuno rhwng y cyrrff ac nid oes anghydfod i'w ddatrys, bydd Gweinidogion Cymru yn gallu arfer eu pŵer disgrisiwn os oes ganddynt reswm i gredu bod angen newid y dyddiadau. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi mai enghraifft o hyn fyddai'r angen i sicrhau bod tymhorau yn gyfartal o ran hyd. Bydd Gweinidogion Cymru hefyd yn caniatáu amrywiadau yn y dyddiadau pan fydd rhesymau da, fel digwyddiad mawr yn cael ei gynnal mewn ardal leol. Nodir Cwpan Ryder, a gynhaliwyd yng Nghasnewydd yn 2010, yn enghraifft o hyn.

Tystiolaeth gan dystion

158. Mae'r cynnig i gysoni'r dyddiadau tymor ysgol wedi cael ei groesawu yn gyffredinol gan bawb a roddodd dystiolaeth. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru y bu sawl ymgais i annog awdurdodau lleol i bennu

¹¹⁷ Memorandwm Esboniadol, paragraff 7

dyddiadau safonol, ond bod y rhain wedi methu. Mae felly yn croesawu'n fawr y ddarpariaeth ar gyfer ymyriad Gweinidogol lle bo angen hynny.

159. Amlygodd UCAC¹¹⁸ a'r Undeb Prifysgolion a Cholegau¹¹⁹ yr achos addysgol dros gael tymhorau safonol oherwydd y cydweithio sy'n digwydd yn yr oedran 14-19, yn aml ar draws ffiniau awdurdodau lleol, yn enwedig yn y sector cyfrwng Cymraeg.

160. Roedd yr arolwg ar-lein a gynhaliwyd gan dîm Allgymorth y Cynulliad hefyd yn dangos cefnogaeth gref i gysoni dyddiadau tymor. O blith y 428 o bobl a atebodd y cwestiwn, byddai'n well gan 61% weld yr un dyddiadau ledled Cymru fod yr un fath ar draws Cymru. Roedd 17% yn anghytuno ac roedd 22% yn ansicr.¹²⁰

161. Un eithriad i'r gefnogaeth gyffredinol i'r cynnig oedd y Gwasanaeth Addysg Catholig, a ddywedodd ei bod yn hanfodol bod ysgolion Catholig yn gallu pennu gwyliau fel eu bod yn gallu cadw at ddysgeidiaeth yr Eglwys, yn arbennig adeg y Pasg.

162. Roedd 65% o'r rhai a holwyd yn credu y dylai Llywodraeth Cymru allu penderfynu ar ddyddiadau tymhorau pan na all awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu gytuno. Roedd 15% o'r farn na ddylai Llywodraeth Cymru allu gwneud hyn ac roedd 21% yn ansicr.¹²¹

Tystiolaeth y Gweinidog

163. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor ei fod yn sensitif iawn¹²² ynghylch y mater hwn ac y byddai, heb os, rhyw fath o amrywiad¹²³ yn parhau ledled Cymru. Dywedodd ei fod yn disgwyl i awdurdodau lleol fod yn gallu cyd-drefnu a rheoli materion o'r fath.

164. Pan holwyd y Gweinidog ynghylch y math o amrywiad y mae'n ei ragweld o dan y Bil, er gwaethaf yr amcan cyffredinol (a phwerau gorfodi Gweinidogol) o ran tymhorau cyson; hynny yw a fyddai'n dderbyniol i bob ysgol ffydd fod â gwyliau Pasg gwahanol lle dymunir hynny, cyn belled ag y bo dyddiadau tymhorau ysgolion eraill yn gyson ar draws awdurdodau lleol, dywedodd y Gweinidog:

¹¹⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 241, 26 Medi 2013

¹¹⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, EB 16

¹²⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, EB 30 & EB 31

¹²¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, EB 30 & EB 31

¹²² Cofnod y Trafodion, paragraff 201, 17 Gorffennaf 2013

¹²³ Cofnod y Trafodion, paragraff 202, 17 Gorffennaf 2013

“You are quite right to say that these issues already exist within local authority areas; there are, out there, local authorities that work in partnership with faith schools very well in trying to resolve concerns around Easter in particular, and they have a good historical track record of making it work. Under that duty of co-operation and co-ordination, we would expect all local authorities to take a sensitive approach to this issue in particular. We know that it is a resolvable problem, because we know that some local authorities do this as a matter of course. So, I am very much aware of the issue, and very sensitive towards it.”¹²⁴

165. Awgrymodd y Gweinidog hefyd y gallai rhesymau eraill dros ymyriad Gweinidogol gynnwys digwyddiadau chwaraeon mawr¹²⁵ ac amgylchiadau anffodus fel yr achosion o'r frech goch.¹²⁶

Ein barn ni

166. Mae'r Pwyllgor yn credu bod cysoni tymhorau ysgolion yn ddymunol ac mae'n gallu gweld manteision y dull hwn.

167. Fodd bynnag, nid oedd yn glir sut a phryd y byddai'r Gweinidog yn defnyddio'r pŵer cyfarwyddo o dan y Bil i ymyrryd yn y broses o bennu tymhorau ysgolion.

168. Roedd rhai Aelodau o'r Pwyllgor hefyd yn cydymdeimlo â'r materion a godwyd gan yr ysgolion ffydd o ran sicrhau bod sylw dyledus yn cael ei roi i ddiwrnodau o arwyddocâd crefyddol wrth bennu tymhorau ysgolion. Mae'r Pwyllgor yn credu nad yw'n ddigon clir sut y gellir rhoi hyblygrwydd i gategoriâu penodol o ysgolion ar ddiwrnodau o arwyddocâd crefyddol - ysgolion Cristnogol adeg y Pasg, er enghraifft - wrth gyflawni'r amcan o gysoni.

Byddai'r Pwyllgor yn hoffi gweld y Gweinidog yn darparu rhagor o fanylion am yr achosion pan fyddai ef, neu un o'i olynwyr, yn ceisio ymyrryd yn y broses o bennu dyddiadau tymhorau, lle mae consensws wedi cael ei gyrraedd ond lle nad yw Llywodraeth Cymru'n ystyried bod y dyddiadau cyffredin hyn yn briodol, neu lle na ellir dod i gonsensws yn lleol.

¹²⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 201, 17 Gorffennaf 2013

¹²⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 206, 17 Gorffennaf 2013

¹²⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 209, 17 Gorffennaf 2013

Byddai'r Pwyllgor hefyd yn hoffi i'r Gweinidog egluro pa gydbwysedd y mae'n bwriadu ei daro rhwng tymhorau ysgol cyson a darparu ar gyfer dewisiadau ysgolion ffydd.



Ann Jones AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

13 Tachwedd 2013

Annwyl Ann,

**Y PWYLLGOR PLANT A PHOBL IFANC – CAM 1 CRAFFU AR Y BIL ADDYSG
(CYMRU)**

Ar ôl ymddangos ger bron y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar 24 Hydref 2013, cytunais i roi manylion pellach i'r Aelodau am drosglwyddo disgyblion AAA rhwng awdurdodau lleol, yr ymgynghoriad a'r ymatebion a dderbyniwyd yn ymwneud ag Ysgolion Annibynnol (s347) a'r gwahaniaeth penodol rhwng s160 ac s347.

Rwyf hefyd wedi rhoi manylion am yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer Dyddiadau Tymor Ysgol, er mwyn egluro pwynt a godwyd gan Rebecca Evans AC.

Yr ymgynghoriad yn ymwneud ag Ysgolion Annibynnol (s347)

Fis Medi 2012, cyhoeddodd yr Adran ar gyfer Addysg a Sgiliau ymgynghoriad ar '*Diwygio trefn gofrestru a chymeradwyo Ysgolion Annibynnol mewn perthynas ag anghenion addysgol arbennig*'. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad dros gyfnod o chwech wythnos a daeth i ben ar y 1af Tachwedd 2012. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru grynodedb o ymatebion yr ymgynghoriad fis Mehefin 2013. Gellir gweld dogfen yr ymgynghoriad a'r ymateb yn:

<http://wales.gov.uk/consultations/education/senregistration/?status=closed&lang=en>

Ysgrifennwyd at bob ysgol annibynnol ac at Gyngor Ysgolion Annibynnol Cymru fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, gan eu gwahodd i gyflwyno sylwadau ar y cynnig i ddiddymu adran 347 (yn wyneb y darpariaethau presennol o dan adran 160 o Ddeddf Addysg 2002 ("adran 160")) ac ar fesurau arfaethedig i'w rhoi yn eu lle er mwyn cefnogi'r newid deddfwriaethol hwn.

Derbyniodd Llywodraeth Cymru dri ymateb gan ysgolion annibynnol i'r ail ymgynghoriad hwn. Cytunai dwy ysgol annibynnol â'r cynigion, ac roedd un yn anghytuno. Cyflwynodd yr un ysgol annibynnol a oedd yn anghytuno â'r cynnig sylwadau ategol a oedd yn tynnu sylw

at y ffaith eu bod yn anghytuno ar y sail na fyddai diddymu adran 347 yn gadael unrhyw ofyniad i Ysgolion Annibynnol gael eu monitro'n flynyddol gan Estyn. Dyma gamddealltwriaeth o'r cynnig deddfwriaethol, gan fod ysgolion annibynnol sy'n derbyn disgyblion â datganiad AAA yn cael eu monitro'n flynyddol yn erbyn safonau ysgolion annibynnol o dan adran 157 o Ddeddf Addysg 2002.

Yn gyffredinol, roedd mwyafrif y rhai a ymatebodd i'r chwe chwestiwn a ofynnwyd yn yr ymgynghoriad yn cytuno â'r cynigion.

Eglurhad o'r hyn sy'n ofynnol o dan broses adran 160 o gymharu â chais adran 347

Mae'n rhaid i bob ysgol annibynnol fod yn gofrestredig. Mae ysgolion yn ymgeisio am gael eu cofrestru o dan adran 160 o Ddeddf Addysg 2002 ("adran 160"). Asesir cais ysgol am gael ei chofrestru gan Estyn yn erbyn y Safonau Ysgolion Annibynnol ("SYA"), ac mae'r rhain yn safonau sydd wedi'u datgan yn y rheoliadau¹.

Fel rhan o'r broses gofrestru, gall ysgol gael ei chofrestru i dderbyn disgyblion gydag AAA pa un ai oes ganddynt ddatganiad ai peidio. Gall unrhyw ysgol sy'n dymuno derbyn disgybl sydd ag AAA ac sydd heb gael ei chofrestru ar gyfer hynny gyflwyno cais o'r fath o dan adran 162 o Ddeddf Addysg 2002 ("adran 162"). Yr enw am hyn yw cais am newid sylfaenol i'r cofrestriad.

Mae'n rhaid i ysgolion annibynnol sy'n dymuno derbyn disgyblion â datganiadau AAA gael eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru o dan adran 347 o Ddeddf Addysg 1996 ("adran 347").

Gall cymeradwyaeth o dan adran 347 fod yn gymeradwyaeth gyffredinol sy'n golygu bod yr ysgol yn cael ei chymeradwyo i dderbyn unrhyw ddisgybl sydd â datganiad AAA. Mae'r rheoliadau sydd wedi'u gwneud o dan adran 347² ("y rheoliadau cymeradwyo") yn datgan y meini prawf i'w hystyried wrth gymeradwyo'r ysgol.

Os nad oes gan ysgol gymeradwyaeth gyffredinol ac os yw disgybl sydd ag AAA eisiau mynychu'r ysgol honno, gall Gweinidogion Cymru ganiatáu'r lleoliad.

Gwelir crynodeb o'r gofynion gwybodaeth, y SYA a'r rheoliadau cymeradwyo yn Atodiad A. Ym marn Llywodraeth Cymru, mae'r gyfundrefn gofrestru a'r SYA yn darparu mesurau diogelu digonol fel nad oes angen y gyfundrefn gymeradwyo bellach.

Lleoliadau Unigol

Yn ystod 2012, roedd 386 o ddisgyblion â datganiad o AAA ar y gofrestr mewn 34 o ysgolion annibynnol yng Nghymru. O blith y rhain, cymeradwyodd Gweinidogion Cymru i 7 o ddisgyblion â datganiad o AAA gael eu lleoli mewn ysgolion annibynnol yng Nghymru. Hefyd, cymeradwyodd Gweinidogion Cymru 5 lleoliad mewn ysgolion yn Lloegr.

Os gofynnir am ganiatâd i dderbyn disgybl unigol mewn ysgol, os yw'r ysgol annibynnol yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru yn gofyn am gyngor Estyn o ran a yw'r lleoliad yn addas. Seilir cyngor Estyn ar ei asesiad o ddatganiad yr unigolyn a'i adroddiad monitro ei hun ar gyfer yr ysgol annibynnol honno. Wedyn, mae'r cyngor gan Estyn yn sail i benderfyniad Gweinidogion Cymru.

¹ Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003 a wnaed o dan adran 158 o Ddeddf Addysg 2002.

² Rheoliadau Addysg (Anghenion Addysgol Arbennig) (Cymeradwyo Ysgolion Annibynnol) 1994

Os yw'r ysgol annibynnol yn Lloegr, yna mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn cyflwyno argymhelliad i Weinidogion Cymru yn dilyn asesiad o'r ffeithiau, sy'n cynnwys y canlynol:

- a. Asesu bod meini prawf yr ysgol annibynnol yn cyd-fynd â'r datganiad o AAA h.y. rhyw, ystod oedran a'r math o ddarpariaeth AAA a roddir.
- b. Asesu adroddiad diweddaraf Ofsted ar yr ysgol yn erbyn cydymffurfiaeth â'r safonau ar gyfer ysgolion annibynnol; a
- c. Cysylltu â'r awdurdod lleol perthnasol ble mae'r ysgol annibynnol wedi'i lleoli er mwyn cael gwybod am unrhyw faterion dadleuol, h.y. amddiffyn plant, ac ati.

Rydym yn credu mai'r awdurdod lleol sydd yn y sefyllfa orau i asesu'r ddarpariaeth AAA sydd ar gael mewn ysgol annibynnol yn erbyn yr anghenion sydd wedi'u datgan yn natganiad disgybl o AAA, gan gynnwys ar gyfer y disgyblion hynny y mae am eu lleoli mewn ysgol yn Lloegr.

Monitro

Os oes gan ysgol gymeradwyaeth gyffredinol o dan adran 347, mae gan Lywodraeth Cymru gytundeb gydag Estyn y bydd yn cynnal ymweliad monitro blynyddol. Fodd bynnag, os mai caniatâd unigol sydd wedi'i roi o dan adran 347 ar gyfer lleoli disgybl, nid oes unrhyw fonitro blynyddol yn digwydd.

Bil Addysg (Cymru)

Yn ychwanegol at ddiddymu adran 347, mae Bil Addysg (Cymru) yn ceisio diwygio'r ffordd y mae ysgolion annibynnol yn cofrestru i dderbyn disgyblion ag AAA. Bydd y Bil yn diwygio adran 160 i gryfhau cyfundrefn gofrestru'r ysgolion annibynnol, drwy newid y ffordd y mae ysgolion annibynnol yn cofrestru i dderbyn dysgwyr sydd â datganiadau o AAA.

Hefyd, mae'n rhaid i ysgolion sy'n cofrestru i dderbyn disgyblion â datganiadau o AAA ddynodi pa fath a lefel o ddarpariaeth AAA y maent yn gallu darparu ar ei chyfer. Bydd yr ysgolion hynny'n cael ymweliadau monitro rheolaidd gan Estyn. Cyhoeddir crynodeb o'r adroddiad monitro ar wefan Estyn, fel ei fod ar gael i'r rhai sydd â diddordeb mewn lleoli disgyblion yn yr ysgol.

Os derbynnir disgybl i ysgol sydd heb ei chofrestru i dderbyn disgyblion â datganiad o AAA, mae Gweinidogion Cymru'n disgwyl i gais am newid sylfaenol gael ei wneud o fewn 6 mis i'r lleoliad hwnnw. Os na fydd hynny'n digwydd, gall Gweinidogion Cymru gymryd camau gorfodi yn erbyn yr ysgol annibynnol, os yw'n ystyried ei bod yn angenrheidiol gwneud hynny.

Yn gyffredinol, rydym yn credu y bydd y diwygiad hwn yn cyflawni'r canlynol:

- a. darparu cyfraith gliriach;
- b. darparu gwybodaeth o safon uwch am ysgolion annibynnol ar gyfer y rhai sy'n lleoli plant â datganiadau o AAA
- c. cryfhau'r mesurau diogelu oherwydd bydd mwy o ysgolion yn cael ymweliadau monitro gan Estyn.

Trosglwyddo disgyblion AAA rhwng awdurdodau lleol

Darpariaethau

Mae Bil Addysg (Cymru) yn cynnwys darpariaeth i roi i awdurdodau lleol gyfrifoldeb am wneud trefniadau ar gyfer asesu pobl ifanc sydd ag anawsterau dysgu a sicrhau darpariaeth addysg bellach arbenigol ble mae angen, er mwyn diwallu anghenion addysg a hyfforddi sydd wedi'u hasesu.

Bydd y cynigion hyn yn dileu'r gwahanu presennol ar y cyfrifoldeb am asesu a sicrhau darpariaeth arbenigol o 16 oed ymlaen ar gyfer dysgwyr sydd ag anawsterau a/neu anableddau dysgu. Bydd hyn yn sicrhau mwy o gysondeb rhwng addysg a hyfforddiant cyn ac ar ôl 16 oed ac yn cefnogi cynllunio gwell ar gyfer y cyfnod pontio, gan fod y rhai sydd eisoes yn gyfarwydd â'r dysgwyr a'u hanghenion yn gallu cefnogi'r gwaith o asesu'r anghenion a'r ddarpariaeth sy'n ofynnol.

Hefyd, mae'r Bil yn cynnig cyflwyno hawl newydd i apelio i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig, a fydd yn dod â hawliau dysgwyr 16 i 25 oed yn fwy unol â dysgwyr iau ac yn dileu'r anghydraddoldeb presennol i rai dysgwyr, yn dibynnu ar ble maent yn derbyn eu haddysg.

Asesu

Mewn perthynas â threfnu i asesu, mae'r cyfrifoldebau allweddol ar wyneb y Bil a bydd y rheoliadau'n datgan y manylion sy'n codi o'r rhain. Hefyd, bydd Cod Ymarfer Statudol yn arwain awdurdodau wrth iddynt ymarfer eu dyletswyddau. Bydd hyn yn galluogi'r defnydd o iaith haws ei deall gan bawb sydd â diddordeb. Hefyd, bydd Cod yn adlewyrchu arferion gorau ac yn cael ei ddatblygu a'i addasu dros amser.

Bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol, o dan rai amgylchiadau penodol, sicrhau asesiad o anghenion addysg a hyfforddiant ôl 16 person y mae'n cynnal datganiad o AAA ar ei gyfer. Mae'r gofyniad hwn yn berthnasol os yw'r person yn ei flwyddyn olaf mewn addysg orfodol, neu'n hŷn nag oedran ysgol gorfodol, ac os yw'r awdurdod lleol yn credu ei fod ef neu hi'n dymuno ymgymryd â rhyw fath o addysg neu hyfforddiant ar ôl 16 oed, wrth adael yr ysgol.

Hefyd, bydd gan awdurdodau lleol bŵer dewisol i sicrhau asesiad o anghenion person am addysg a hyfforddiant ôl 16, yn amodol ar iddo fodloni gofynion penodol y Bil. Y rhain yw; bod rhaid i'r person fod yn byw fel rheol yn ardal yr awdurdod; naill ai yn ei flwyddyn olaf mewn addysg orfodol neu'n hŷn nag oedran addysg orfodol ond yn iau na 25 oed; bod gan y person anhawster dysgu; bod y person naill ai'n derbyn addysg neu hyfforddiant ôl 16 neu'n ymddangos fel pe bai'n dymuno gwneud hynny.

Mae nifer o bwerau llunio rheoliadau'n berthnasol i'r maes hwn. Mae disgwyl i'r ddarpariaeth sy'n cael ei gwneud o dan y pwerau hyn gael ei chynnwys mewn dwy gyfres o reoliadau. Bydd un gyfres o Reoliadau'n delio ag apeliadau (rheolau tribiwnlys a'r cyfnod i awdurdodau lleol gydymffurfio â gorchmynion y Tribiwnlys, er enghraifft) a bydd y gyfres arall o Reoliadau'n gwneud darpariaeth ar gyfer asesu anghenion a materion cysylltiedig, gan gynnwys y canlynol:

- beth sy'n rhan o'r asesiad o anghenion;
- sut mae ceisiadau asesu'n cael sylw;
- terfynau amser ar gyfer asesu;
- pryd gellir ystyried rhywun fel preswlydd fel rheol mewn ardal awdurdod lleol;
- pryd gellir cynnal asesiadau pellach;
- manylu ar amgylchiadau pan nad oes raid i'r awdurdod lleol gynnig y ddarpariaeth sydd wedi'i nodi yn yr asesiad bellach.

Bydd y rheoliadau llunio pwerau hyn yn galluogi i Weinidogion Cymru ddatgan pryd dylid/na ddylid trin dysgwr fel preswlydd fel rheol mewn ardal awdurdod lleol, gan leihau'r potensial ar gyfer tarfu ar addysg dysgwr os bydd yn symud o un awdurdod i un arall. Er enghraifft, gallai'r pwerau hyn gael eu defnyddio i sicrhau bod y ddyletswydd yn parhau'n berthnasol am gyfnod penodol ar ôl i berson symud o ardal awdurdod, a/neu bod y ddyletswydd yn dod i ben os bydd person yn methu cydweithredu o dan amgylchiadau penodol â darpariaeth ar gyfer asesiad pellach. Bydd cyfarwyddyd manwl sy'n datgan y sefyllfa mewn perthynas â

dysgwr yn symud o un awdurdod i un arall yn cael sylw yn y Cod Ymarfer. Yn sicr, mae disgwyl y bydd ymgynghori ar y rheoliadau a'r Cod unwaith y byddant wedi cael eu drafftio.

Bydd y rheoliadau arfaethedig, ynghyd â Chod Ymarfer statudol, yn darparu manylion a hefyd yn cynnig rhywfaint o'r hyblygrwydd y mae ei angen er mwyn caniatáu ar gyfer addasu dros amser, wrth i'r polisi ddatblygu neu wrth i amgylchiadau sy'n effeithio ar y manylion newid. Cynigir bod rheoliadau drafft a Chod Ymarfer drafft, y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu hystyried, yn cael eu paratoi erbyn mis Medi 2014 a bod ymgynghori yn eu cylch wedi digwydd erbyn hynny, fel bod awdurdodau lleol yn cael 12 mis i baratoi ar gyfer y newid.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer Dyddiadau Tymor Ysgol

Cwestiynodd Ms Evans yr effaith ar y nodwedd warchoddedig o gofnodi crefydd a chred yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb fel y 3 opsiwn posib h.y. "cadarnhaol", "negyddol" a "dim/dibwys".

Mae'r testun yn yr Asesiad yn egluro "*Mae posib i'r effaith ar rai grwpiau crefyddol Cristnogol sy'n dymuno i'w plant fod yn yr ysgol yn ystod yr Wythnos Sanctaidd (h.y. yn ystod ac yn cynnwys Dydd Iau Cablyd) amrywio*".

Bydd yr effaith bosib yn dibynnu ar pa un ai yw'r dyddiadau tymor sy'n cael eu pennu'n cyd-fynd â dymuniadau'r grwpiau Cristnogol hyn ar gyfer eu hysgolion "ffydd". Os nad yw'r dyddiadau'n cyd-fynd â'u dymuniadau, gellid dweud eu bod yn cael effaith negyddol ar y grwpiau Cristnogol hyn. I'r gwrthwyneb, os yw dyddiadau'r tymhorau'n rhoi ystyriaeth i anghenion ysgolion "ffydd", ni ddylid cael unrhyw effaith ar y grwpiau Cristnogol hyn oherwydd bydd eu dymuniadau wedi cael eu bodloni.

Yn yr un modd ag ar gyfer teuluoedd nad ydynt yn perthyn i'r grwpiau Cristnogol hyn, efallai y bydd hefyd effaith gadarnhaol i rai staff a disgyblion mewn ysgolion ffydd, a'u teuluoedd, oherwydd ni fyddant yn gorfod chwilio am ofal plant ychwanegol a'i gyllido.

Gobeithio y bydd y wybodaeth yr wyf wedi'i chyflwyno o gymorth a'i bod yn egluro'r sefyllfa mewn perthynas â'r materion uchod i'r Pwyllgor.

Yn gywir,



Huw Lewis AC / AM

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau
Minister for Education and Skills

Gofynion Gwybodaeth Cyfredol i gefnogi Gweinidogion Cymru i wneud penderfyniad o dan adran 160, adran 162 ac adran 347

<p>Adran 160 o Ddeddf Addysg 2002 – i’w chategoreiddio a’i gweithredu fel ysgol annibynnol</p> <p>Adran 162 o Ddeddf Addysg 2002 – cais am ‘newid sylfaenol’ i’r cofrestrriad gwreiddiol (yng nghyd-destun derbyn disgyblion â datganiad o AAA)</p>	<p>Adran 347 o Ddeddf Addysg 1996 – Cymeradwyaeth i dderbyn disgyblion â datganiadau AAA, yn gyffredinol</p>	<p>Adran 347 o Ddeddf Addysg 1996 – Cymeradwyaeth benodol i leoli unigolyn â datganiad o AAA</p>
<p>Adran 160</p> <p>Gwybodaeth ragnodedig mewn cais am statws annibynnol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • ystod oedran y disgyblion; • uchafswm y disgyblion; • a yw’r ysgol ar gyfer disgyblion gwrywaidd neu fenywaidd neu’r ddau; • a yw’r ysgol yn darparu llety ar gyfer disgyblion; • Hefyd, mae’n rhaid i ysgolion gynnwys manylion ynghylch a yw’n derbyn disgyblion ag AAA pa un ai oes ganddynt ddatganiad ai peidio. <p>Hefyd, mae’n rhaid i sefydliadau ddarparu’r wybodaeth ganlynol i Weinidogion Cymru i gefnogi eu cais:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynlluniau o’r ysgol yn dangos lleoliadau’r adeiladau a’r llety yn yr eiddo. 	<p>Adran 347</p> <p>Y meini prawf y mae’n rhaid i ysgolion annibynnol gydymffurfio â hwy cyn cael eu cymeradwyo:</p> <ul style="list-style-type: none"> • addaswydd perchnogion a staff (gyda chyfeiriad penodol at addaswydd athrawon disgyblion sydd â nam ar y golwg ac ar y clyw); • addaswydd staff gofal preswyl os yw’r ysgol yn ysgol gyda llety; • derbyn disgyblion i ysgolion, lle na fydd disgybl yn cael ei dderbyn os yw’r canlynol yn berthnasol: <ol style="list-style-type: none"> yr ysgol ddim yn gallu darparu addysg lawn-amser briodol, neu 	<p>Adran 347</p> <ul style="list-style-type: none"> • copi o ddatganiad AAA plentyn; • argymhelliad ar gyfer lleoli’r plentyn hwnnw mewn ysgol annibynnol sydd wedi’i henwi; • cadarnhad ysgrifenedig gan yr ysgol annibynnol bod ganddi le ar gael i dderbyn y plentyn hwnnw • cyngor gan Estyn bod y lleoliad yn addas. <p><u>Gofynion Monitro</u></p>

<ul style="list-style-type: none"> • Polisiâu cwricwlwm manwl, cynlluniau gwaith (ar gyfer y pynciau a ddysgir) a'r gweithdrefnau ar gyfer asesu gwaith a chynnydd y disgyblion. • Copïau o bolisi ysgrifenedig yr ysgol ar: Bwlio; Diogelu a hybu lles y plant sy'n ddisgyblion yn yr ysgol; Diogelu a hybu iechyd a diogelwch y disgyblion mewn gweithgareddau y tu allan i'r ysgol; a hybu ymddygiad da ymhlith y disgyblion. • Copi o asesiad risg yr ysgol. • Copi o drefn gwyno'r ysgol. • Bydd rhaid i bob ysgol annibynnol fodloni Llywodraeth Cymru bod y perchennog yn addas, a bydd yn cael archwiliad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. <p>Asesir ysgolion gan Estyn yn seiliedig ar y safonau yn Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ansawdd yr addysg a ddarperir yn yr ysgol, gan roi sylw i'r canlynol yn benodol:- <ul style="list-style-type: none"> ○ y cwricwlwm, a bydd yn ofynnol i ysgolion weithredu polisi cwricwlwm priodol, a ategir gan gynlluniau a chynlluniau gwaith, gyda'r nod o sicrhau addysg briodol, eang a chytbwys i ddisgyblion o bob gallu, gan gynnwys y rhai sydd â datganiad o AAA, heb fod yn rhagnodedig ynghylch yr hyn y mae'n ofynnol i ysgolion annibynnol ei addysgu: ○ yr addysgu yn yr ysgol; ○ gwerthuso perfformiad disgyblion; a ○ darpariaeth effeithiol ar gyfer y rhai y mae'r Gymraeg neu'r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt. • Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn yr ysgol, sy'n rhoi sylw i ddatblygiad ehangach disgyblion ac yn datgan rhai egwyddorion y dylai'r ysgol geisio eu hybu. 	<ul style="list-style-type: none"> ii. ni fyddai'n cyd-fynd ag unrhyw amod a orfodir gan Weinidogion Cymru, neu iii. ni fydd yn torri unrhyw reolau o ran uchafswm y disgyblion i'w derbyn yn yr ysgol; <ul style="list-style-type: none"> • ni ddylai unrhyw eithriadau o'r ysgol fod yn afresymol; • rhaid i bersonau cymwys ddarparu ar gyfer iechyd a lles y disgyblion; hybu lles a diogelu disgyblion sy'n aros yn yr ysgol (os yn berthnasol) a chadw cofnodion iechyd a meddygol; • mae angen rhoi gwybod ymlaen llaw i Weinidogion Cymru os bydd sylweddau a chyfarpar sy'n cynnwys peryglon iechyd ac sydd â swm ragnodedig o ddeunydd ymbelydrol neu, yn unigol, lle mae electronau cynyddol, i gael eu defnyddio ar gyfer cyfarwyddyd yn yr ysgolion; • cyn belled ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol, dylai cyfarfodydd addoli ac addysg grefyddol gael eu mynychu a'u derbyn gan ddisgyblion; • llyfrau digwyddiadau a chosbau i gael eu cadw; a • safonau'r eiddo i gydymffurfio â'r safonau sydd wedi'u rhagnodi o dan adran 542 o Ddeddf 1996. <p>Unwaith mae ysgol wedi cael ei chymeradwyo, ceir gofynion pellach i gydymffurfio â hwy. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:</p>	<p>Dim. Nid oes unrhyw ofynion i Estyn fonitro ysgol annibynnol ble mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi cymeradwyaeth benodol i leoli unigolyn â datganiad o AAA.</p>
---	---	--

<ul style="list-style-type: none"> • Lles, iechyd a diogelwch y disgyblion, gan roi sylw penodol i'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> ○ ei bod yn ofynnol cael polisïau ar fwlio, diogelu, iechyd a diogelwch, ymddygiad, a chymorth cyntaf; ○ y safonau ychwanegol sy'n berthnasol pan mae ysgol yn darparu llety i ddisgyblion; ○ lefel y diogelwch tân; ○ goruchwyliaeth briodol ar ddisgyblion; ○ cadw cofnodion o'r cosbau a orfodir am droseddau disgyblaethol; a ○ cadw cofnodion am dderbyn a phresenoldeb. • Addasrwydd staff, staff llanw a pherchnogion, gan roi sylw penodol i'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> ○ yr archwiliadau y mae'n rhaid eu cynnal mewn perthynas â staff a gyflogir yn yr ysgol, gan gynnwys archwiliadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, ymchwiliadau ymddygiad tramor, hawl i weithio yn y DU a dangosyddion addasrwydd eraill; • Eiddo a llety aros yn yr ysgol; • Y wybodaeth a ddarperir gan yr ysgol, gan roi sylw penodol i'r canlynol:- <ul style="list-style-type: none"> ○ gwybodaeth, y mae'n rhaid rhoi gwybod ei bod ar gael i rieni a darpar rieni ac y dylid darparu copïau ohoni ar gais; ○ hawliau rheini i gael gwybod am ganlyniadau darganfyddiadau'r arolygon ar yr ysgol; ○ y wybodaeth y mae'n rhaid ei rhoi i unrhyw arolygiaeth sy'n arolygu'r ysgol; ○ adroddiadau blynyddol i rieni mewn perthynas â phob disgybl unigol, yn datgan ei gynnydd a'i gyrhaeddiad; ○ cyfrifon i gael eu darparu i awdurdodau lleol ble mae awdurdodau lleol yn cyllido disgyblion yn rhannol neu'n llawn yn yr ysgol; ○ y wybodaeth sy'n ofynnol gan unrhyw awdurdod lleol er mwyn adolygu datganiad o AAA unrhyw ddisgybl 	<ul style="list-style-type: none"> • darpariaeth addysgol briodol; • dylid rhoi gwybod i Weinidog Cymru am unrhyw newidiadau yn y dull o reoli'r ysgol; • rhoi gwybod am addasu sylweddol ar yr eiddo i Weinidog Cymru; • gofyn am gyngor gan yr awdurdod tân ac achub; • adroddiadau camymddygiad mewn perthynas â chyflogeion sydd wedi cael eu diswyddo (neu a fyddai wedi cael eu diswyddo) i Weinidog Cymru a'r awdurdodau lleol perthnasol; • defnyddio'r ddarpariaeth sy'n berthnasol i flwyddyn a diwrnod ysgol ac absenoldeb; • darparu adroddiadau ysgrifenedig ar blant â datganiadau i'r awdurdod lleol; • darparu gwybodaeth i'r person priodol mewn perthynas â phlentyn ag AAA pan fydd plentyn yn gadael yr ysgol i fynd i ysgol neu sefydliad arall; • rhoi gwybod am unrhyw farwolaeth, salwch neu anaf i bobl ragnodedig; • caniatáu mynediad i'r awdurdod lleol ac i rieni i'r ysgol ac at letywyr; a • cyhoeddi prospectws i gynnwys gwybodaeth ragnodedig. <p><u>Gofynion Monitro</u></p>	
---	---	--

<p>AAA; a</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ y ddarpariaeth o asesiad risg diogelwch tân i Weinidogion Cymru. ● Y ffordd y mae cwynion yn cael eu trin gan yr ysgol. <p>Hefyd, gall ysgolion annibynnol wneud cais i Weinidogion Cymru o dan y ddarpariaeth bresennol yn adran 162 am “newidiadau sylfaenol” i’w cofrestriad gwreiddiol, h.y. gallai ysgol annibynnol wneud cais am ehangu ei hystod o ddarpariaeth AAA o dan adran 162.</p> <p>Adran 162</p> <p>Mae Adran 162 o Ddeddf Addysg 2002 yn datgan ei bod yn ofynnol i bob ysgol annibynnol sicrhau cymeradwyaeth cyn gweithredu rhai newidiadau penodol. Yng nghyd-destun derbyn disgyblion â datganiadau AAA, bydd rhaid i ysgolion ddarparu’r canlynol yn eu ceisiadau:</p> <ul style="list-style-type: none"> ● Unrhyw gynnig i dderbyn ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig:- <ul style="list-style-type: none"> ○ Manylion am nifer ac ystod oedran y disgyblion arfaethedig, ynghyd â gwybodaeth am y math o AAA i ddarparu ar eu cyfer. Hefyd, manylion cwricwlwm, cynlluniau gwaith a ble mae addasiadau wedi cael eu gwneud i eiddo ysgolion, y cynlluniau ysgol. <p>Gofynion Monitro</p> <p>Ar ôl 3 mis o weithredu, ar ôl y cofrestru cychwynnol, bydd Estyn yn ymweld â’r ysgol annibynnol i gadarnhau ei bod yn parhau i fodloni’r safonau cofrestru unwaith y mae’r disgyblion wedi cael eu derbyn a’r ysgol yn weithredol.</p> <p>Wedyn, caiff ysgolion annibynnol eu harolygu’n rheolaidd gan Estyn yn erbyn Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol</p>	<p>Os yw ysgol annibynnol wedi cael ei chymeradwyo (o dan adran 347) i dderbyn disgyblion â datganiadau AAA yn gyffredinol, mae gan Weinidogion Cymru gytundeb ag Estyn i fonitro’r ysgolion hyn yn flynyddol.</p> <p>Bydd yr ymweliad monitro blynyddol hwn yn adolygu’r ddarpariaeth AAA yn erbyn Safonau’r Ysgolion Annibynnol. <i>Mae’r ymweliad monitro blynyddol hwn yr un fath â’r un a gynhelir o dan adran 160 ble mae ysgol annibynnol wedi’i chofrestru i dderbyn disgyblion ag AAA pa un ai oes ganddynt ddatganiad ai peidio.</i></p>	
--	--	--

<p>(Cymru) 2003. Cynhelir yr arolygon hyn bob chwe blynedd o leiaf, fodd bynnag, fe'u cynhelir yn amlach os yw ysgol yn peri pryder.</p> <p>Os yw ysgol annibynnol wedi cofrestru (o dan adran 160 neu wedi cymeradwyaeth i newid sylfaenol i'w chofrestriad o dan adran 162) i dderbyn disgyblion ag AAA pa un ai oes ganddynt ddatganiad ai peidio, bydd yn cael ymweliad monitro blynyddol gan Estyn. Bydd yr ymweliad monitro blynyddol hwn yn adolygu'r ddarpariaeth AAA yn erbyn Safonau'r Ysgolion Annibynnol.</p>		
---	--	--

Tystion

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau llawn o'r sesiynau tystiolaeth lafar yn <http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mglIssueHistoryHome.aspx?Ild=1305>

17 Gorffennaf 2013

Huw Lewis AC Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, Llywodraeth Cymru

26 Medi 2013

Dominic MacAskill, Rheolwr Rhanbarthol UNSAIN Cymru

Martin Hird, Uwch-drefnydd sy'n gyfrifol am Wasanaethau Cyhoeddus GMB

Owen Hathway, Swyddog Polisi Cymru Undeb Cenedlaethol yr Athrawon Cymru

Rex Phillips, Trefnydd Cymru NASUWT Cymru

Rebecca Williams, Swyddog Polisi Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

Dr Chris Llewelyn, Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Daisy Seabourne, Swyddog Polisi Dysgu Gydol Oes Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

2 Hydref 2013

Dr Philip Dixon, Cyfarwyddwr Cymdeithas Athrawon a Darlithwyr Cymru

Lisa Edwards, Swyddog Cyswllt Gwleidyddol Undeb Prifysgolion a Cholegau Cymru

Anna Brychan, Cyfarwyddwr Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon Cymru

Robin Hughes, Ysgrifennydd ASCL Cymru

Angela Jardine, Cadeirydd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru

Gary Brace, Prif Weithredwr Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru

Ann Keane, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi Estyn

Meilyr Rowlands, Cyfarwyddwr Strategol Estyn

Jassa Scott, Cyfarwyddwr
Cynorthwyol

Estyn

10 Hydref 2013

Denise Inger, Prif Weithredwr a
Chyfarwyddwr

SNAP Cymru

Debbie Thomas, Cadeirydd

Cynghrair Anghenion Ychwanegol y
Trydydd Sector

Gary Williams, Cyfarwyddwr

Addysg Cyfeiriadau Newydd

Kate Shoesmith, Pennaeth Polisi a
Materion Cyhoeddus

Y Conffederasiwn Recriwtio a Chyflogaeth

24 Hydref 2013

Huw Lewis AM

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, Llywodraeth
Cymru

Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld y dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn yn www.senedd.cynulliadcyrmu.org/mgMsg.aspx?T=1750465505&M=1750465506

<i>Sefydliad</i>	<i>Cyfeirnod</i>
Undeb Cenedlaethol yr Athrawon, Cymru	EB 01
Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig	EB 02
Llywodraethwyr Cymru	EB 03
Y Confederasiwn Recriwtio a Chyflogaeth	EB 04
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)	EB 05
Estyn	EB 06
Comisiynydd Plant Cymru	EB 07
Cymdeithas Dyslecsia Prydain	EB 08
Grŵp Aspect o fewn undeb Prospect	EB 09
Diverse Cymru	EB 10
Cymdeithas Athrawon a Darlithwyr (ATL) Cymru	EB 11
UNSAIN Cymru	EB 12
Cyngor Gofal Cymru	EB 13
Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau	EB 14
Undeb Prifysgol a Choleg Cymru (UCU Cymru)	EB 15
Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru	EB 16
Afasic Cymru	EB 17
Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru	EB 18
Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru	EB 19
Gwasanaeth Seicoleg Addysg a Phlant Sir Gaerfyrddin	EB 20
Barnardo's Cymru	EB 21
Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar ac RNIB Cymru	EB 22
Cymdeithas Genedlaethol y Colegau Arbenigol	EB 23
Cyngor Addysgu Cyffredinol yr Alban	EB 24
Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon Cymru	EB 25
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru	EB 26
ColegauCymru	EB 27
SNAP Cymru	EB 28
Grwp ffocws 1	EB 29
Grwp ffocws 2	EB 30
GMB	B 31
Addysg Cyfeiriadau Newydd	EB 32